

Gofyn a Gweithredu
Ask and Act



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darparu "Gofyn a Gweithredu"
Rôl yr ymarferydd rheng flaen

Mae'r ddogfen hon wedi'i darparu fel drafft gweithio er mwyn asesu ei phriodoldeb. Ar ôl penderfynu ar ei ffurf derfynol, bwriedir ei chyhoeddi fel canllaw statudol o dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, ar ôl ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyntaf yn unol ag adran 16 o'r Ddeddf.

Er mai 'drafft gweithio' yw'r ddogfen hon, gobeithir y bydd yn helpu'r awdurdodau perthnasol hynny sy'n cymryd rhan yn yr ail gam cyflwyno i gynllunio a gweithredu Gofyn a Gweithredu.

Rhagair Gweinidogol

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi arwain ymateb cenedlaethol i ddelio â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rydym wedi torri tir newydd drwy gyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, wedi gweithredu'n gadarn i'w rhoi ar waith drwy gyflwyno'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – 2016-2021 ac wedi arloesi drwy gyflwyno Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, cynllun ymgyrchoedd newydd a rhaglen gynhwysfawr ar gynaliadwyedd ar gyfer gwasanaethau arbenigol.

Mae “Gofyn a Gweithredu” yn enghraifft ychwanegol o'n hymrwymiad i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a dyma ein menter fwyaf uchelgeisiol o bell ffordd hyd yn hyn ar gyfer newid ymarfer. Mae'n broses o holi wedi'i dargedu i'w defnyddio ar draws yr awdurdodau perthnasol (sydd wedi'u henwi yn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) er mwyn adnabod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae “Gofyn a Gweithredu” yn cynnig potensial i newid ac achub bywydau ac mae'r adborth cyntaf o waith cynnar ar ei mabwysiadu yn dangos ei bod yn cyflawni hyn. Mae'n bolisi a ddatblygwyd gyda rhai sydd wedi goroesi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, felly mae wedi'i seilio ar brofiad gwirioneddol. Wrth baratoi i gyflwyno “Gofyn a Gweithredu” ledled Cymru, rydym yn cychwyn ar daith a fydd yn gallu gweddnewid ymagwedd y gwasanaeth cyhoeddus at y rheini sydd wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; gan adnabod mwy o bobl mewn angen, cynnig ymyriadau effeithlon ac effeithiol yn gynharach a gwella'r ymateb i'r problemau hyn.

Diolch i chi am ddod yn ymarferydd “Gofyn a Gweithredu”: rydych chi'n cyflawni rôl sy'n hanfodol ar gyfer adnabod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chynnig cymorth a chefnogaeth i'r rheini sy'n eu profi. Drwy arfer y broses “Gofyn a Gweithredu” mewn ffordd gyson a sensitif, byddwch yn helpu i ddileu'r ymdeimlad o gywilydd, stigma ac erledigaeth sy'n cael ei gysylltu â'r profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac yn gwella'r ymateb i'r rheini sy'n profi'r problemau hyn. Yn y pen draw, drwy arfer y broses “Gofyn a Gweithredu” gallwch helpu i atal trais a cham-drin rhag digwydd yn y dyfodol a gwella iechyd a llesiant y rheini sy'n wynebu'r problemau hyn.

“Gofyn a Gweithredu” yw'r newid mewn ymarfer a fydd yn sicrhau bod ein deddfwriaeth a'n strategaeth yn cael eu rhoi ar waith yn y rheng flaen. Byddwn yn creu newid mewn diwylliant ar draws y gwasanaeth cyhoeddus sy'n sicrhau bod y profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei ddeall yn ei gyd-destun cywir, bod datgelu gan ddioddefwyr yn cael ei dderbyn a'i hwyluso, a bod cymorth priodol a chyson yn cael ei ddarparu.

Julie James AC

Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Nodyn am iaith

Mae “Gofyn a Gweithredu” yn bolisi a luniwyd gan Lywodraeth Cymru sy’n cael ei roi ar waith drwy ganllawiau, ariannu a hyfforddiant. Mae elfen hyfforddi’r polisi yn cael ei chyflawni drwy grwpiau 2 a 3 yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae’r Polisi Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ymdrin â phob math o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fodd bynnag, mae enw’r Fframwaith wedi’i bennu er mwyn sicrhau, wrth roi’r polisi ar waith, ei fod yn canolbwyntio ar fathau penodol o drais a cham-drin sy’n cael eu profi’n amlach ar gyfartaledd gan fenywod a genethod. Mae tystiolaeth yn dangos bod menywod ar gyfartaledd yn profi mwy o achosion o gam-drin domestig mynych, pob math o drais rhywiol a mathau eraill o drais a cham-drin fel priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM).

Er ei bod yn bwysig cydnabod a rhoi gwybod am natur anghymesur y profiad hwn drwy ddarparu hyfforddiant, gan gynnwys yr hyfforddiant ar y broses “Gofyn a Gweithredu”, pwrpas y Fframwaith yw sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael eu hyfforddi i ymateb yn effeithiol i unrhyw un sy’n profi effaith o unrhyw fath o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Felly, dylid cymryd bod cyfeiriadau yn y canllawiau hyn at “drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol” neu “drais a cham-drin” yn cynnwys pob math o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel y maent wedi’u diffinio yn adran 24 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Bydd rhai mathau o drais a cham-drin sy’n cyfateb i’r diffiniadau hyn yn cael eu profi o fewn lleoliadau a pherthnasoedd teuluol, gan gynnwys perthnasoedd rhwng dau o’r un rhyw, rhwng aelodau o deuluoedd a chan ddynion sy’n cael eu cam-drin gan fenywod. Felly, mae’r hyfforddiant ar gyfer pob grŵp yn y Fframwaith, gan gynnwys yr hyfforddiant ar y broses “Gofyn a Gweithredu”, yn cydnabod effaith anghymesur y mathau hyn o drais a cham-drin ar fenywod ond bydd yn cynnwys yr holl ddioddefwyr posibl.

Mae’r hyfforddiant ar y broses “Gofyn a Gweithredu” yn cydnabod bod profiad dynion a menywod o’r mathau hyn o drais a cham-drin yn gallu bod yn wahanol a bod gofyn yn aml i weithwyr proffesiynol ymateb mewn ffordd sy’n ystyriol o’r gwahaniaethau hyn. Fel y mae’r canllawiau hyn yn egluro, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion penodol pob cleient, boed y rheini’n gysylltiedig â rhywedd neu nodweddion eraill, wrth ddarparu opsiynau priodol drwy wasanaethau.

Cynnwys

Adran	Tudalen
Cyflwyniad	5
“Gofyn a Gweithredu” – Proses	8
• Adnabod dangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol	9
• Darparu lle diogel a phreifat i ymgynghori â chleientiaid	18
• Yr ymarferydd yn gofyn cwestiynau uniongyrchol a sensitif i'r cleient am ei brofiad	20
• Delio â datgeliad	24
• Camau newid	27
• Adnabod risg	29
• Ystyried a yw'r risg yn galw am rannu gwybodaeth y cleient	39
• Cynnig opsiynau atgyfeirio a gwneud atgyfeiriad	41
• Cofnodi	45
Cymhwyso “Gofyn a Gweithredu” at rai sydd ag anghenion amrywiol ychwanegol	48
Gofyn a Gweithredu – cynnwys camdrinwyr	54
Diffiniadau	63
Cyfeiriadau	65

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer ymarferwyr sydd wedi'u hyfforddi (drwy'r rhaglen hyfforddi genedlaethol o dan arweiniad Llywodraeth Cymru) i "Ofyn a Gweithredu". Yn y canllawiau hyn, rhoddir disgrifiad o arferion da ar gyfer "Gofyn a Gweithredu" a dylid cyfeirio at y ddogfen hon am gymorth i ymarfer y dull holi wedi'i dargedu.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u bwriadu ar gyfer yr awdurdodau perthnasol sydd wedi'u henwi yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2015). Y rhain yw awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Y rheswm am hyn yw bod rhaglen hyfforddi "Gofyn a Gweithredu" Llywodraeth Cymru yn cael ei darparu i'r sefydliadau hyn. Fodd bynnag, os bydd sefydliadau eraill yn dymuno mabwysiadu "Gofyn a Gweithredu", bydd y canllawiau hyn yn eu helpu i ddeall y disgwyliadau o ran arferion da a'r ffordd y mae'r rheini sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chleientiaid – "yr ymarferwyr" – i ymddwyn wrth ryngweithio â chleientiaid.

Maent yn amlinellu'r broses fanwl ar gyfer "Gofyn a Gweithredu" ac yn disgrifio pob cam sydd angen ei gymryd er mwyn cyflawni hyn yn dda. Yn gyntaf, maent yn trafod sut i baratoi i ofyn ac wedyn yn edrych ar bob un o'r canlyniadau posibl o'r pwynt hwnnw ymlaen.

Gellir cael gwahaniaethau bach yn y ffordd y bydd "Gofyn a Gweithredu" yn gweithio ym mhob sefydliad, yn ôl strwythur y sefydliad a'ch grŵp cleientiaid ond mae'r canllawiau'n darparu gwybodaeth am arferion da ar gyfer darparu "Gofyn a Gweithredu" gan ymarferwyr rheng flaen a'r gobaith yw y byddwch yn gallu cymhwyso'r rhain at eich rôl gwaith eich hun.

Mae astudiaethau achos yn y canllawiau hyn a ddarparwyd gan y sefydliadau sydd wedi treialu "Gofyn a Gweithredu". Mae'r safleoedd hyn wedi darparu gwersi a chynghor ymarferol wrth i'r prosiect gamu ymlaen ac wrth ddatblygu'r canllawiau hyn. Mae'r ddogfen wedi'i seilio hefyd ar brofiad y rheini sydd wedi cael eu cam-drin ac mae'r adborth a gafwyd ganddynt wedi bod yn amhrisiadwy yn y cam datblygu terfynol. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'r safleoedd sydd wedi mabwysiadu "Gofyn a Gweithredu" yn gynnar, ac i oroeswyr am eu cefnogaeth gyson i'r prosiect.

Cyn i chi "Ofyn a Gweithredu"

Mae nifer o ffactorau pwysig yn cynnal y broses "Gofyn a Gweithredu". Rhaid rhoi'r rhain yn eu lle a'u hystyried cyn i unrhyw ymarferydd roi'r broses "Gofyn a Gweithredu" ar waith.

Mae'n bwysig bod yr holl ymarferwyr sy'n "Gofyn a Gweithredu" yn derbyn hyfforddiant priodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwyr ar gyfer "Gofyn a Gweithredu" sy'n cael ei chyflwyno ledled Cymru.

Bydd yr hyfforddwyr hyfforddedig sy'n gweithio yn eich ardal chi yn darparu rhaglen hyfforddi ranbarthol drwy'r "Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol". Bydd yr hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" yn darparu gwybodaeth a sgiliau ar gyfer "Gofyn a Gweithredu".

Rhaid sicrhau bod yr holl ymarferwyr a gaiff eu dewis i "Ofyn a Gweithredu" yn eu sefydliad yn dilyn yr hyfforddiant hwn. Bydd eich arweinydd rhanbarthol neu sefydliadol yn gallu'ch helpu i gymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi yn eich ardal.

Hawl y cleient i gyfrinachedd

Bydd y rheini sy'n derbyn gwasanaeth a ddarperir gan yr awdurdod perthnasol yn cael eu galw'n gleientiaid ym mhob rhan o'r canllawiau hyn, fel y nodwyd yn adran diffiniadau'r ddogfen hon.

Bydd yn hanfodol cael dealltwriaeth o ddeddfwriaeth Diogelu Data a phrotocolau lleol ar rannu gwybodaeth ar gyfer "Gofyn a Gweithredu". Bydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn cael ei fabwysiadu yng nghyfraith y DU o fis Mai 2018 a bydd yn rhaid cydymffurfio â'r rheoliad hwn wrth rannu unrhyw ddata personol o'r dyddiad hwn. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn argymhell bod pob corff cyhoeddus yn paratoi ar gyfer ei weithredu.

Mae hawl i gyfrinachedd gan gleientiaid, ond nid yw'r hawl hon yn absoliwt. Weithiau gall cleient ddatgelu gwybodaeth o ganlyniad i holi wedi'i dargedu a bydd yn rhaid i'r ymarferydd ffurfio barn ynghylch a fydd yn rhannu rhywfaint neu'r cyfan o wybodaeth y cleient ac, os bydd, pa fanylion i'w rhannu. Rhaid seilio unrhyw benderfyniad i rannu gwybodaeth ar y ddeddfwriaeth berthnasol ar rannu data a'r ddyletswydd cyfrinachedd o dan y gyfraith gyffredin.

Mae'n hanfodol bod pob cleient yn ymwybodol o'i hawliau i gyfrinachedd ac o dan ba amgylchiadau y mae'r hawliau hyn yn newid, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am ba wybodaeth y mae'n dewis ei rhannu â'r ymarferydd y mae'n gweithio gydag ef, ac er mwyn bod â disgwyliadau rhesymol am y ffordd o drin o wybodaeth hon.

Wrth weithio gyda cleientiaid sydd o gefndir lleiafrifol a/neu sydd ag anghenion amrywiol, mae'n bwysig iawn i chi fod yn glir ynghylch y ffordd y bydd eu gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin er mwyn gwella eu profiad o ymwneud â gwasanaethau.¹

Gwybod am hanfodion gweithdrefnau diogelu

Mae "Gofyn a Gweithredu" yn bolisi ar gyfer oedolion yn bennaf ond fe fydd achosion lle bydd yn briodol holi person ifanc am ei brofiadau. Mae hefyd yn debygol iawn, wrth ganfod bod oedolyn wedi profi mathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y byddwch hefyd yn dod ar draws problemau diogelu o ran ei blant ei hun neu unrhyw blant y mae'n gysylltiedig â nhw.

Mae hefyd yn bosibl y byddwch yn gweld dangosyddion o'r profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn cleientiaid sydd ag anghenion ychwanegol am ofal a chymorth.

Ym mhob achos o'r fath, bydd yn hanfodol eich bod yn sefydlu partneriaeth weithredol ag ymarferwyr sy'n arbenigo mewn diogelu (drwy ddilyn gweithdrefnau diogelu eich sefydliad) er mwyn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd mewn ymateb i'r arwyddion o gam-drin tra bydd y gweithdrefnau diogelu ffurfiol yn cael eu dilyn.

Mae "Gofyn a Gweithredu" yn ffordd newydd o adnabod y rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chynnig cymorth iddynt yn gynharach. Fodd bynnag, nid yw'n cymryd lle unrhyw weithdrefn diogelu bresennol nac yn creu gweithdrefn diogelu newydd. Rhaid i chi ddilyn y gweithdrefnau diogelu presennol os ydych yn amau bod plentyn neu oedolyn mewn perygl.

Yr ymarferydd yn adnabod dangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Yr ymarferydd yn adnabod arwyddion

Yr ymarferydd yn adnabod symptomau

Gwybodaeth sy'n awgrymu bod y cleient yn profi problem yn cael ei darparu i'r ymarferydd

Mae'r ymarferydd mewn lleoliad lle mae holi pob cleient yn cael ei ystyried yn arfer da

Gofyn a Gweithredu: Proses

Cleient yn datgelu profiad o gam-drin hanesyddol neu bresennol

Mewn lle diogel a phreifat:

Yr ymarferydd yn gofyn cwestiynau uniongyrchol a sensitif i'r cleient am ei brofiad.

Nid yw'r cleient yn datgelu camdriniaeth

Un ai gan yr ymarferydd neu drwy atgyfeirio ar unwaith at arbenigwr

Adnabod ac asesu risg

Ystyried y ddyletswydd cyfrinachedd a risg


Cynnig opsiynau ar gyfer atgyfeirio a'u dilyn

Ystyried materion diogelu a'r ddyletswydd i roi gwybod am risg

Cofnodi

Ystyried materion diogelu

Cofnodi



1. Adnabod dangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol


Mae “Gofyn a Gweithredu” yn fath o holi wedi’i dargedu yn hytrach na holi cyffredinol.

Mae holi cyffredinol yn golygu holi’r holl ddefnyddwyr gwasanaethau am eu profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol pa un a oes arwyddion o gam-drin neu amheuaeth o gam-drin neu beidio.

Mae holi wedi’i dargedu yn golygu bod ymarferwyr perthnasol yn defnyddio “trothwy isel wrth holi” a yw’r cleient yn profi trais neu gamdriniaeth os yw’r cleient yn amlygu dangosyddion penodol o gam-drin o’r fath. Ystyr y term “dangosyddion” yw’r holl fathau o arwyddion, symptomau, ciwiau neu leoliadau y gellir adnabod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy sylwi arnynt. Mewn rhai lleoliadau ieuchyd, mae holi wedi’i dargedu yn cael ei alw’n holi clinigol.

Bydd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn digwydd mewn perthnasoedd heterorywiol, lesbiaidd, hoyw a deurywiol, i bobl cisryweddol a thrawsryweddol, a gall fod yn gysylltiedig ag aelodau eraill o’r teulu, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Er bod rhai grwpiau’n fwy agored na’i gilydd i’r perygl o brofi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, **gall unrhyw un ei brofi** beth bynnag fo’i hil, grŵp ethnig neu grefyddol, rhywedd, oed, statws economaidd-gymdeithasol neu ffordd o fyw. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos bod rhai mathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fwy cyffredin mewn rhai cymunedau a dylai’r ymarferydd roi sylw dyledus i hyn, gan osgoi ffurfio barn anwybodus neu rannol ar sail stereoteip neu gamsyniad.

Mae’n hollbwysig seilio’r broses “Gofyn a Gweithredu” ar ystyriaeth gyson o ddangosyddion hysbys o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn hytrach na barn, safbwyntiau personol neu unrhyw fath o stereoteipio. Mae’r dangosyddion hyn yn cael eu trafod ymhellach isod.



Wrth ymarfer

Gall unrhyw un ddioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac mae’n bwysig bod y broses “Gofyn a Gweithredu” yn adlewyrchu hyn. Yn y bôn, dylai pawb sy’n profi unrhyw fath o gam-drin gael derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, drwy wasanaethau cyhoeddus neu rai arbenigol, a dylid monitro dangosyddion y profiadau hyn yn y grŵp cleientiaid cyfan.

I ddibenion y canllawiau hyn, mae'r term 'dangosyddion' yn cwmpasu pedwar sbardun i holi cleientiaid am eu profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: **arwyddion, symptomau, ciwiau a lleoliadau**.

Er y bydd pob cleient yn ymdrin yn wahanol â'i brofiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae'r rhain yn ddangosyddion o'r broblem sy'n cael eu cydnabod yn gyffredinol. Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol ohonynt a dylent eu hysgogi i holi ymhellach.

Ni ellir darparu rhestr gyflawn o ddangosyddion a'r union fathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol y maent yn ymwneud â nhw. Byddai'r dangosyddion sydd wedi'u nodi isod yn gallu bod yn arwydd o nifer o fathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol neu o brofiad trawmatig o fath arall. Os oes cysylltiad uniongyrchol rhwng dangosydd a math penodol o gam-drin, rydym yn nodi hynny.

Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd rhywun yn dangos arwyddion o gam-drin, er ei fod yn profi rhywbeth trawmatig. Mae cam-drin domestig, yn benodol, yn cael ei nodweddu'n aml gan reolaeth drwy orfodaeth sydd, oherwydd ei natur, yn llechwraidd ac yn anodd ei egluro mewn llawer achos. Ni ddylai'r ymarferydd nodi arwyddion nad yw wedi'u gweld na chroesholi'r cleient. Fodd bynnag, ni ddylid cymryd ychwaith fod adnabod dangosyddion yn broses syml.

Mae rheolaeth drwy orfodaeth yn drosedd yng Nghymru a Lloegr a bydd yn digwydd pan fydd person y mae gan rywun gysylltiad personol ag ef yn ymddwyn yn fynych mewn ffordd sy'n cael effaith ddifrifol arno, a bod y person yn gwybod neu y dylai fod wedi gwybod y byddai'n cael effaith ddifrifol arno.


Mae'r mathau ymddygiad canlynol yn enghreifftiau cyffredin o reolaeth drwy orfodaeth (nid yw'r rhestr hon yn gyflawn):

- arwahanu rhywun oddi wrth ei deulu a'i ffrindiau;
- rheoli faint o arian sydd gan rywun a sut mae'n cael ei wario;
- monitro gweithgareddau a symudiadau;
- bychanu rhywun a galw enwau arno'n gyson;
- bygwth niweidio neu ladd person neu ei blentyn.

Gallai'r dangosyddion hyn fod yn arwydd o nifer o broblemau gwahanol, yn ogystal ag ysgogi pryderon o ran diogelu plant neu oedolion sydd mewn perygl. Oherwydd hynny, bydd adnabod dangosyddion o'r fath ac ymchwilio iddynt yn elfen hanfodol mewn ymarfer da yn barod.

Beth bynnag am nodweddion eraill y cleient, os gwelir un o'r pedwar dangosydd, yna dylai'r ymarferydd ddilyn camau pellach y broses "Gofyn a Gweithredu" sydd wedi'u disgrifio isod. Nid oes rhaid i'r dangosyddion hyn gael eu gweld mewn cyfuniad penodol cyn penderfynu holi. Byddai gweld un dangosydd yn ddigon i'ch ysgogi i "Ofyn a Gweithredu".

Y pedwar math o ddangosydd



Arwyddion

Bydd yr arwyddion allanol posibl bod rhywun yn profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhai corfforol ac yn rhai sy'n gysylltiedig ag ymarweddiad ac ymddygiad y cleient. Mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn cydnabod bod gorfodaeth yn rhan o nifer o'r mathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac, felly, fod cam-drin emosiynol yn gallu digwydd yn aml cyn cam-drin corfforol. Bydd adnabod pethau fel newid mewn agwedd yn gallu cynnig ffordd o ymyrryd yn gynnar.

Arwyddion diwylliannol-gymdeithasol	Arwyddion corfforol
Newidiadau mewn ymagwedd neu ymddygiad: mynd yn ddistaw iawn, yn orbryderus, yn ofnus, yn ddagreul, yn ymosodol, yn bell ei feddwl, yn isel ei ysbryd etc.	Anafiadau sydd heb eu hegluro
Partner/aelod o'r teulu'n dod gyda'r cleient bob amser, hyd yn oed os yw hynny'n ymddangos yn gefnogol neu'n ofalgar	Newid ym mhatrwm neu faint y colur y mae'n ei ddefnyddio
Partner/aelod o'r teulu'n ei reoli neu'n gosod gofynion anarferol ynghylch y rhyngweithio â'r gwasanaeth, gan gynnwys bod gydag ef bob amser	Newid yn y ffordd y mae'r cleient yn gwisgo: er enghraifft, dillad anaddas i'r tywydd (i guddio anafiadau o bosibl) neu steil dillad sy'n wahanol iawn i'r hyn a oedd yn cael ei wisgo o'r blaen
Dibynnu ar bartner/aelod o'r teulu am wneud penderfyniadau. Dim ewyllys rhydd nac annibyniaeth	Cymryd/camddefnyddio sylweddau
Obsesiwn gyda phrydlondeb	Blinder/anhwylderau cysgu
Yn gyndyn o siarad am fywyd y cartref	Anhawster wrth gerdded, sefyll neu eistedd (arwydd bod menyw neu eneth wedi dioddef FGM ¹)
Yn poeni am adael plant gartref gyda phartner neu aelod o'r teulu	Treulio mwy o amser yn yr ystafell ymolchi neu doiled (arwydd bod menyw neu eneth wedi dioddef FGM)
Partner neu gyn-bartner yn defnyddio rheolaeth anarferol neu'n gosod gofynion anarferol ynghylch amserlen y cleient	Ymddygiad anarferol ar ôl bod yn absennol o'r ysgol neu goleg (arwydd bod menyw neu eneth wedi dioddef FGM neu wedi priodi dan orfod)
Arwahanu cymdeithasol oddi wrth ei deulu/ffrindiau	Yn amharod i dderbyn archwiliad meddygol arferol (arwydd bod menyw neu eneth wedi dioddef FGM neu gam-drin corfforol)
	Ceisio cyflawni hunanladdiad neu dueddiadau hunanladdol.

¹ Mae FGM yn driniaeth lle mae organau cenhedlu benywod yn cael eu niweidio neu eu newid heb reswm meddygol dros wneud hynny.

Mynd ar goll o'r cartref, gofal neu addysg (arwydd bod y person mewn perygl o brofi camfanteisio'n rhywiol ar blant neu briodas dan orfod)

Treulio amser gyda grwpiau o bobl hŷn, neu grwpiau gwrthgymdeithasol, neu gyfoedion eraill sy'n agored i niwed (arwydd bod y person mewn perygl o brofi camfanteisio'n rhywiol ar blant a bwlio ar-lein)

Cysylltiad â phobl ifanc eraill sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol (arwydd bod y person mewn perygl o brofi camfanteisio'n rhywiol ar blant neu fasnachu plant)

Ymwneud â gangiau, ymladd rhwng gangiau, bod yn aelod o gang (arwydd bod y person mewn perygl o brofi camfanteisio'n rhywiol ar blant neu fasnachu plant (a mathau eraill o gam-drin hefyd)

Cariadon hŷn (arwydd bod y person mewn perygl o brofi camfanteisio'n rhywiol ar blant)

Treulio amser mewn mannau sy'n peri pryder, fel gwestai neu buteindai hysbys (arwydd bod y person mewn perygl o brofi camfanteisio'n rhywiol ar blant neu fasnachu plant)

Dim gwybodaeth am ble mae'r person, am ei fod wedi'i symud o gwmpas y wlad (arwydd bod y person mewn perygl o brofi camfanteisio'n rhywiol ar blant)

Ymwneud â mân droseddu fel dwyn o siopau (arwydd bod y person mewn perygl o brofi camfanteisio'n rhywiol ar blant)²

Symptomau

Yn y canllawiau hyn, mae'r term "symptomau" yn disgrifio dangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a welir amlaf mewn cyd-destun meddygol neu glinigol. Felly y disgwyl yw y bydd symptomau'n cael eu hadnabod mewn ymarfer clinigol a meddygol yn bennaf. Mae rhestr isod o rai o'r symptomau a ddylai sbarduno ymchwiliad, ond nid yw'n rhestr gyflawn:

- Anawsterau wrth wneud dŵr neu anymataliaeth (FGM)
- Anhwylderau bwyta
- Beichiogrwydd (treisio a thrais rhywiol)
- Blinder
- Camesgoriad
- Canlyniadau atgenhedlu niweidiol, gan gynnwys beichiogi a/neu derfynu beichiogrwydd droeon yn anfwriadol, oedi cyn derbyn gofal beichiogrwydd, canlyniadau geni niweidiol
- Ceisio cyflawni hunanladdiad
- Defnyddio alcohol neu sylweddau eraill
- Gorbryder
- Gwaedu cyson o'r wain a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (treisio a thrais rhywiol)
- Heintiau aml ar y bledren neu arennau a methiant yr arennau
- Heintiau aml neu gronig ar y wain, y pelfis neu'r llwybr wrinol (FGM)
- Hunan-niweidio
- Iselder
- Llid ar yr anws neu'r wain (treisio a thrais rhywiol)
- Partner sy'n ymwithgar neu ormesol mewn ymgynghoriadau â staff meddygol
- Poen cronig sydd heb eglurhad meddygol
- Problemau â'r mislif (FGM)
- Problemau â'r system nerfol ganolog – cur pen, problemau gwybyddol, colli clyw
- Problemau gynaeolegol³
- Rhedlif anarferol (treisio a thrais rhywiol)
- Symptomau atgenhedlol sydd heb eglurhad meddygol, gan gynnwys poen yn y pelfis, trafferthion rhywiol
- Symptomau gastroberfeddol sydd heb eglurhad meddygol
- Ymgynghori droeon â gweithwyr meddygol heb gael diagnosis clir neu symptomau meddygol sydd heb eu hegluro

Ciwiau

Mae ciw yn eitem o wybodaeth neu'n batrwm ymddwyn sy'n galw am holi yn ei gylch. Gallai hyn olygu bwrw golwg ar yr ymgysylltu rhwng y cleient a gwasanaethau dros amser a gofyn am y rhesymau dros ymgysylltu ysbeidiol neu ar sail argyfwng. Gallai hefyd olygu gwybodaeth sydd wedi'i darparu gan asiantaeth sy'n bartner ar sail atgyfeiriad, neu ei rhannu drwy ddilyn Protocolau lleol ar Rannu Gwybodaeth, sy'n dangos pryder, amheuaeth neu wybodaeth sydd heb ei chadarnhau bod y cleient yn profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae rhai ciwiau penodol wedi'u disgrifio isod:

Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)

Mae'n bwysig cydnabod y posibilrwydd bod menywod sy'n profi FGM (ac sy'n defnyddio gwasanaethau awdurdod perthnasol) mewn perygl o gael y driniaeth, neu o fod wedi cael y driniaeth yn ddiweddar neu yn y gorffennol. Bydd arnynt angen gwasanaethau sy'n berthnasol i'w profiad. Er enghraifft, bydd y rhai o dan ddeunaw oed yn wynebu risg fwy o gael y driniaeth, tra byddai menywod hŷn yn gallu profi anawsterau sy'n gysylltiedig â'r ffaith eu bod wedi cael y driniaeth yn y gorffennol a bellach yn wynebu goblygiadau sy'n ymwneud â beichiogrwydd neu faterion iechyd cysylltiedig.

Mae'n bosibl na fydd geneth sydd mewn perygl uniongyrchol o brofi FGM yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd ond fe allai siarad â chi am y pethau canlynol neu gallech ddod i wybod amdanynt:

- gwyliau hir mewn gwlad dramor neu fynd 'adref' i ymweld â'r teulu
- perthynas neu dorrwr yn ymweld o wlad dramor
- achlysur arbennig neu seremoni i 'ddod yn fenyw' neu baratoi am briodas
- perthynas fenywaidd yn cael ei thorri – chwaer, cyfnither, neu berthynas fenywaidd hŷn fel mam neu fodryb.⁴

Mae'r rhain yn giwiau y dylid gweithredu arnynt a dylid cymryd camau pellach drwy weithdrefnau diogelu. Mae dyletswydd wedi'i gosod i roi gwybod am achosion hysbys o FGM. Rydym yn trafod hyn ymhellach yma.

Trais ar sail anrhydedd a phriodasau dan orfod

Byddai nifer o'r ciwiau uchod yn gallu dangos bod cam-drin yn cael ei gyflawni er mwyn "anrhydedd". Mae ciwiau posibl ychwanegol bod rhywun mewn perygl o briodi dan orfod wedi'u dangos isod. Mae'r rhain yn berthnasol iawn i bobl ifanc a dylid eu gweld yn giwiau i sbarduno ymholiadau priodol neu ofyn am gymorth arbenigol.

- Y person ifanc yn wyliadwrus iawn.
- Hanes o briodasau dan orfod yn y teulu.
- Peidio â chael gadael y tŷ.
- Ceisio ffoi o'r cartref.
- Monitro cyson gan y teulu.
- Cais am ganiatâd i fod yn absennol am gyfnod hir o'r ysgol a/neu fethu â dychwelyd o wlad wreiddiol y teulu ar ôl gwyliau.
- Brodyr a chwiorydd neu aelodau eraill o'r teulu sydd yn yr un ysgol yn cadw golwg.
- Ofn am wyliau ysgol i ddod.
- Tynnu rhywun o'r ysgol neu ei atal rhag mynd ymlaen i addysg uwch.
- Peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol.
- Bod yn absennol o'r ysgol yn amlach ac am gyfnodau hirach.⁵

Nid croesholi yw “Gofyn a Gweithredu”, a lle bynnag y gwelir ciwiau dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r arwyddion diwylliannol-gymdeithasol a chorfforol sydd wedi'u rhestru uchod. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn ymwybodol o wahaniaethau diwylliannol a sensitifrwydd diwylliannol.

Os bydd yr ymarferydd yn gweld neu'n derbyn ciw, dylai wneud ymholiad priodol a gofyn am gyngor gan ei hyrwyddwr grŵp 3 a chan wasanaethau arbenigol i Bobl Dduon, Asiaidd, Ethnig Lleiafrifol a Ffoaduriaid. Dylai ymarferwyr osgoi defnyddio jargon gan fod nifer o ddiwylliannau'n mynegi gwahanol fathau o gam-drin mewn ffordd syml. Mae perygl y byddai diffyg cyd-ddealltwriaeth o dermau a jargon yn gallu arwain at golli cyfleoedd i'r cleient ddatgelu achos o gam-drin neu at gamddeall y cwestiwn gan y cleient. Byddwch yn amyneddgar ac empathig wrth wneud ymholiad.

Astudiaeth achos

Roedd ymarferydd mewn Awdurdod Lleol wedi datblygu perthynas waith â chleient dros nifer o wythnosau. Byddent yn cwrdd yn rheolaidd i drafod anghenion y cleient a'i gynllun cymorth.

Yn ystod y cyfarfodydd hyn, roedd y cleient wedi digwydd crybwyll ei gobaith am adael ei gŵr ryw ddiwrnod ac roedd gwaith wedi'i wneud i ystyried a fyddai'n bosibl dod o hyd i lety newydd ar ei chyfer.

Dechreuodd y cleient ganslo cyfarfodydd ac roedd yn rhoi nifer o wahanol resymau dros wneud hynny. Yn ystod y galwadau i ganslo, roedd agwedd y cleient a'i ffordd o siarad gyda'r ymarferydd wedi newid. Roedd hefyd wedi dechrau awgrymu nad oedd hi bellach am symud ymlaen â rhannau o'i chynllun cymorth.

Roedd yr ymarferydd wedi dechrau pryderu bod y newid yn agwedd y cleient yn ganlyniad i broblemau yn ei pherthynas a oedd yn fwy difrifol nag yr oedd wedi'i dybio o'r blaen. Gofynnodd yn uniongyrchol i'r cleient a oedd ei gŵr yn ei cham-drin ac a oedd wedi'i brifo erioed. Atebodd y cleient drwy ddweud nad oedd dim wedi digwydd a bod ganddi broblemau iechyd.

Ddau ddiwrnod wedyn, ffoniodd y cleient yr ymarferydd. Roedd mewn gofid ac yn dweud bod rhaid iddi ddianc oddi wrth ei gŵr mor fuan â phosibl ac yn datgelu ei bod wedi cael ei cham-drin.

Ar ôl cael y datgeliad, roedd yr ymarferwyr wedi sicrhau cymorth tai arbenigol i'r cleient ac wedi atgyfeirio'r achos i wasanaeth cam-drin domestig arbenigol lleol.

Lleoliadau

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod holi cyffredinol yn briodol mewn rhai lleoliadau, gan fod rheswm y cleient dros ddod i gysylltiad â'r lleoliad hefyd yn sbardun i holi am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Dylai ymarferwyr sy'n gweithio yn y lleoliadau canlynol holi pob cleient fel mater o drefn a yw'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan

ein bod yn gwybod bod cam-drin domestig yn cyd-ddigwydd â phwrrpas craidd y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu (problemau iechyd meddwl, beichiogrwydd, cam-drin plant):

- **Iechyd meddwl**

Mae'r risg o ddatblygu iselder, anhwylder straen wedi trawma (PTSD), problemau o ran camddefnyddio sylweddau neu dueddiadau hunanladdol yn 3 i 5 gwaith yn uwch ymysg menywod sydd wedi profi trais yn eu perthynas nag yn achos menywod sydd heb brofi hynny.⁶

Drwy gydnabod bod presenoldeb mewn lleoliadau iechyd meddwl yn ddangosydd ar gyfer "Gofyn a Gweithredu", bydd ymarferwyr yn cael cyfle i roi sylw rhagweithiol i'r cysylltiadau hyn a chynnig gofal sy'n ymdrin â'r problemau sy'n cyd-ddigwydd. Yn ystod yr ymgynghoriad ar y ddogfen hon, roedd y rheini a gafodd brofiad o gam-drin wedi nodi bod eu gofid wedi'i gamddehongli drwy ei alw'n angen iechyd meddwl neu'n "ansefydlogrwydd" a bod hynny wedi arwain at ddiagnosis anghywir neu ddiffyg triniaeth briodol. Roedd rhai hefyd wedi goroesi camdriniaeth lle'r oedd eu camdrinwyr wedi'u cyhuddo o fod â salwch meddwl er mwyn gwneud yn fach o'r gamdriniaeth neu eu gormesu ymhellach. Y gobaith yw y bydd mwy o ymwybyddiaeth mewn lleoliadau iechyd meddwl o'r ffordd y mae iechyd meddwl yn cael ei ddefnyddio mewn mathau o gam-drin sy'n cynnwys gormes a gorfodaeth yn arwain hefyd at wella'r ymateb cyfannol a ddarperir i'r rheini sydd wedi profi'r cam-drin.

- **Lleoliadau mamolaeth ac ôl-enedigol⁷**

Mae 30% o'r achosion o drais domestig yn dechrau yn ystod beichiogrwydd ac yn gysylltiedig â phwysau geni isel ac anawsterau ynglŷn â beichiogrwydd, gan gynnwys camesgor a marw-enedigaethau^{8 9}.

Bydd "Gofyn a Gweithredu" yn cryfhau ymhellach y llwybr gofal mamolaeth presennol sy'n defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth i holi pob menyw am gam-drin domestig yn y cyfnod cynenedigol.

- **Lleoliadau sy'n cael eu cysylltu â phryderon a godwyd am gam-drin neu esgeuluso plant**

Mae bron tri chwarter y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn byw mewn cartrefi lle mae trais domestig yn digwydd ac mae 52% o'r achosion amddiffyn plant yn ymwneud â thrais domestig.¹⁰

Mae 62% o'r plant sy'n agored i effaith cam-drin domestig yn cael niwed uniongyrchol hefyd. Os collir cyfleoedd i adnabod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, collir cyfleoedd i adnabod risg i blant hefyd.

Astudiaeth achos

Roedd cleient yn trafod problemau ariannol â swyddog dyledion ac wedi datgelu bod ei gŵr yn mynd â'r holl arian yr oedd yn ei ennill drwy fusnes y teulu, gan ei gadael heb ddim i dalu ei rhent, neu i fyw arno. Yn dilyn ymholiadau pellach, roedd y cleient wedi datgelu bod ei gŵr wedi rheoli materion ariannol erioed, gan gymryd symiau mawr o'r busnes i dalu am ddiod gan ei fod yn gaeth i alcohol.

Eglurodd y tenant ei bod wedi gofyn i'w gŵr adael yn ddiweddar ond ei fod ef yn gwrthod gwneud hynny. Roedd y cleient, sy'n unig denant ar ei thŷ cyngor, yn credu y byddai gan ei gŵr hawl i'r eiddo am eu bod yn briod.

Yn dilyn y datgeliad hwn, roedd y swyddog dyledion wedi rhoi sicrwydd iddi am y denantiaeth ac wedi cynnig ac wedi gwneud atgyfeiriad i'r gwasanaeth arbenigol lleol ar gam-drin domestig.

4. Darparu lle diogel a phreifat i ymgynghori â chleientiaid

Rhaid gweithredu'r broses "Gofyn a Gweithredu" mewn diwylliant ac amgylchedd lle mae cyfrinachedd, preifatrwydd a data'r grŵp cleientiaid yn cael eu parchu a'u trin yn ofalus iawn. Yn syml, bydd hyn yn galw am:

- roi blaenoriaeth i hyrwyddo diogelwch y cleient ac egluro'n ofalus y lefel o gyfrinachedd y bydd yn gallu ei disgwyl;
- sicrhau bod mannau preifat a chyfrinachol ar gael fel y bydd cleientiaid yn teimlo'n ddiogel ac yn peidio â phoeni y bydd pobl eraill yn clywed y sgwrs.

Wrth ymarfer

Dylai'r ymarferydd ystyried dau fater pwysig cyn gofyn y cwestiwn:

- Yr amgylchedd;
- Ei gytgord â'r cleient.

Yr amgylchedd

Rhaid i'r man rydych yn ei ddarparu i holi'r cleient am ei brofiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fod yn ddiogel. Y cleient fydd yn barnu a yw'n ddiogel. Cyn i chi ofyn unrhyw gwestiynau sensitif, gofalu ei fod yn teimlo'n ddiogel yn y man rydych yn ei ddarparu a gofynnwch beth fyddai'n gwneud iddo deimlo'n fwy cyfforddus.

Peidiwch â dechrau trafod y profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol os oes pobl eraill o gwmpas neu os bydd pobl eraill yn gallu clywed eich sgwrs. Rhaid i'r cleient fod ar ei ben ei hun, heb neb o'i deulu na'i bartner yn bresennol.

Gofalu ei fod gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i'r rheini sy'n profi effaith trais a cham-drin yn cael ei dangos yn glir mewn mannau aros a mannau cymunol a lleoedd addas eraill. Dylid cynnwys manylion cyswllt y llinellau cymorth lleol a chenedlaethol sy'n berthnasol.

Sicrhewch fod y deunyddiau sydd ar gael yn dangos bod cleientiaid sy'n eu hystyried eu bod yn perthyn i leiafrif neu sydd ag anghenion amrywiol yn cael eu cynnwys.

Gofalwch fod y wybodaeth am leoedd i gael cymorth wedi'i darparu mewn gwahanol fformatau, gan gynnwys fersiynau Braille a chlywedol a phrint bras, ac mewn ieithoedd a ddefnyddir yn lleol. Gellir cyfleu gwybodaeth mewn ffyrdd llai amlwg hefyd, er enghraifft, drwy ddarparu pennau neu dorchau allweddau â rhif ffôn llinell gymorth.

Peidiwch â rhagdybio bod ffrind neu aelod o'r teulu'n "ddiogel". Mae rhai mathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu cyflawni gan nifer o bobl, gan gynnwys aelodau o'r teulu o bob rhywedd a rhwydweithiau cymdeithasol estynedig. Gall hyn fod yn arbennig o wir am gam-drin ar sail "anrhydedd" ac o fewn cymunedau clòs fel y rheini sydd gan deithwyr.

Nid yw'n briodol i ffrind neu aelod o'r teulu gael ei ddefnyddio fel cyfieithydd.

Bydd cleient yn llai tebygol o ddatgelu gwybodaeth os yw ei blant yn bresennol. Gallai deimlo'n anghyfforddus wrth drafod gwybodaeth o'r fath o'u blaen; gallai wneud yn fach o'r trais er mwyn eu hamddiffyn a gallai fod mewn sefyllfa lle mae'r camdriniwr yn cymell plant y cleient i gadw golwg ar ei weithredoedd a bydd y cleient yn gwybod nad yw'n ddiogel cael y sgwrs pan fo'i blant yn bresennol.

Peidiwch â rhagdybio beth yw rhyw neu rywedd y cleient neu bartner y cleient a pheidiwch â defnyddio labeli os gallwch.

Mae'n bosibl na fydd cleient LGBT+ wedi datgelu ei rywedd i'r person sydd gydag ef a gallai fod yn amharod i ddatgelu pethau am ei fywyd preifat.

Rhaid i'r cleient deimlo bod yr ymarferydd yn rhoi ei holl sylw iddo.

Cytgord

Mae'n bwysig normaleiddio'r broses o "ofyn y cwestiwn". Y ffordd orau o gymell y cleient i ddweud beth sydd ar ei feddwl yw mabwysiadu dull o holi ystyriol. Ceisiwch beidio â mygu'r parodrwydd i ddatgelu drwy fod yn rhy ymddiheurol neu'n rhy blaen eich tafod.

Mae siarad am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu bod yn ddigwyddiad emosiynol, i'r person sy'n cael ei gam-drin ac i'r un sy'n gwrando ar y datgeliad, a rhaid delio ag ef mewn ffordd sensitif.

Rhaid i'r ymarferydd ymddangos yn hyderus er mwyn gofyn y cwestiwn. Pe byddai ymarferydd yn ymddangos yn nerfus wrth ofyn, gallai hynny beri i'r cleient feddwl na fydd yn gallu delio â'r ateb.

Dylai'r ymarferydd fod yn ymwybodol o'i gyfathrebu dieiriau er mwyn sicrhau ei fod yn ymddangos yn barod i dderbyn yr ateb i'w gwestiwn.

Dylai'r ymarferydd arfer ei sgiliau gwrando gweithredol i sicrhau bod y cleient yn teimlo ei fod yn rhoi ei holl sylw iddo.




Yr ymarferydd yn gofyn cwestiynau uniongyrchol a sensitif i'r cleient am ei brofiad

Yr arddull holi

Byddai'r dangosyddion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu adlewyrchu nifer o wahanol faterion ac ysgogi pryderon hefyd ynghylch diogelu plant neu oedolion sydd mewn perygl. Oherwydd hynny, bydd adnabod dangosyddion o'r fath ac ymchwilio iddynt yn elfen hanfodol mewn ymarfer da yn barod.

Fel arfer, bydd holi wedi'i dargedu yn arwain at ddyblu'r cyfraddau ar gyfer adnabod achosion o gam-drin domestig ac yn cynyddu nifer yr atgyfeiriadau i asiantaethau allanol.¹¹ Oherwydd hyn, gall arwain at effaith gadarnhaol ar fywydau nifer mawr o'r rheini sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac ar fywydau eu plant. Y flaenoriaeth i'r holl wasanaethau sy'n darparu "Gofyn a Gweithredu" fydd ymdrin ag anghenion a diogelwch y dioddefwyr hyn.

Roedd mwyafrif y rheini a holwyd am y mater hwn yn bleidiol i gynnal proses o holi am drais domestig, ar yr amod ei bod yn cael ei chynnal mewn amgylchedd diogel a chyfrinachol.¹² **Mae adborth sy'n seiliedig ar ymarfer yn dangos bod y rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dymuno i ymarferwyr eu holi am eu profiad a'i bod yn haws i gleient ymateb i gwestiwn uniongyrchol na chynnig y wybodaeth heb ei gymell.**



Wrth ymarfer

Yr arfer gorau yn gyffredinol yw "gofyn" mewn arddull sgysiol, gan roi'r holl sylw i'r cleient a gwrando'n astud ar ei atebion. Fodd bynnag, dylid addasu technegau holi yn ôl anghenion lleoliad yr ymarferydd a'r grŵp cleientiaid. Mewn rhai meysydd gwaith, gellid dewis defnyddio offeryn sgrinio oherwydd y pwysau o ran amser a chapasiti yn y maes hwn.

Mae'n bwysig na fydd y defnydd o'r offer hyn yn effeithio ar yr ymgysylltu rhwng yr ymarferydd a'r cleient. Os bydd offer yn cael eu defnyddio, dylid ystyried y materion canlynol o ran ymarfer wrth benderfynu sut i'w defnyddio a pha offer sgrinio i'w dewis²:

² Mae'r term Trais mewn Perthynas Bersonol yn yr adran hon yn adlewyrchu'r iaith yn y dystiolaeth gysylltiedig.

- **Y cyd-destun/amgylchedd lle defnyddir offer sgrinio:** dylai'r offer sgrinio a ddefnyddir mewn lleoliadau gofal iechyd fod yn fyr a chynhwysfawr ac wedi'u treialu gyda phoblogaethau amrywiol.
- **Y cyfnod y mae'r offer sgrinio wedi'u seilio arno:** mae offer sgrinio'n amrywio'n fawr o ran y cyfnod y maent yn holi amdano. Y cyfnod dan sylw yw'r cyfnod pan brofwyd y gamdriniaeth. Bydd rhai offer yn ymdrin â'r presennol, rhai'n ystyried camdriniaeth a brofwyd dros y 12 mis diwethaf, ac eraill yn holi a brofwyd camdriniaeth mewn unrhyw gyfnod.
- **Mathau o gam-drin:** Nid yw'r rhan fwyaf o offer sgrinio yn ymdrin â phob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Maent yn canolbwyntio ar y mathau sy'n digwydd amlaf mewn perthnasoedd personol.

Yn aml, bydd cam-drin emosiynol yn digwydd cyn cam-drin corfforol, felly mae'n ddangosydd pwysig ar gyfer adnabod cam-drin yn gynnar ac ymyrryd. Yn ail, mae menywod sy'n profi cam-drin rhywiol yn wynebu risg fwy o gael canlyniadau iechyd niweidiol na menywod sy'n profi cam-drin corfforol neu emosiynol. Yn olaf, gall rhai mathau o gam-drin fod ar ffurf bygythiadau ac ymddygiad sy'n cynnwys gorfodaeth/gormesu yn unig.

Dylai offer sgrinio gael eu seilio ar gysyniad mor eang â phosibl o Drais mewn Perthynas Personol.

- **Beichiogrwydd:** nid yw pob offeryn sgrinio yn holi'n benodol am gam-drin yn ystod beichiogrwydd. Mae'n bwysig ystyried hyn yng nghyd-destun lleoliadau a ddefnyddir gan fenywod beichiog.
- **Eu defnyddio gyda phoblogaethau o ddynion a grwpiau amrywiol:** mae rhai offer sgrinio wedi'u treialu gyda dynion ond nid yw'n glir eto a yw'r offer sgrinio hyn, a oedd wedi'u bwriadu'n wreiddiol i'w defnyddio gyda menywod, yn addas i'w defnyddio gyda dynion.

Ni ddylid cymysgu rhwng offer sgrinio ac offer adnabod neu asesu risg sy'n cyflawni diben heblaw nodi'r broblem ac sy'n rhan o gam dilynol yn y broses "Gofyn a Gweithredu". Mae'n bwysig nodi hefyd fod nifer o offer sgrinio yn ymwneud ag un math yn unig o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Y cwestiwn

Mae'r wybodaeth isod yn rhoi arweiniad i ymarferwyr ar y ffordd o ddechrau sgwrs â chleient ar ôl sylwi ar ddangosydd sy'n awgrymu ei fod yn profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Trafodir nifer o ffyrdd o ddechrau'r sgwrs ond, wrth siarad â phob cleient, bydd yn bwysig ystyried y posibilrwydd ei bod yn hawdd dylanwadu arno. Mae hyn yn arbennig o gymwys i bobl ifanc, y rheini sydd â gweithrediadau deallusol is neu anabledau dysgu. Mewn rhai achosion, gall y cleientiaid hyn fod yn fwy tebygol o "gytuno" â'r awgrym eu bod yn cael eu cam-drin pan nad yw hynny'n wir a rhaid i ymarferwyr beidio ag arwain unrhyw gleient i ddatgelu.

Er mwyn dechrau sgwrs, eglurwch i'r cleient beth rydych wedi sylwi arno a'ch bod yn pryderu ynghylch beth allai fod yn gysylltiedig â'r hyn rydych wedi sylwi arno. Dylai hyn arwain at gwestiwn uniongyrchol neu anuniongyrchol – y “gofyn”.

Cwestiynau anuniongyrchol

Gan fod y dangosyddion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu bod yn ddangosyddion hefyd o broblemau cymdeithasol neu iechyd cyhoeddus ehangach, mae'n bosibl y bydd yr ymarferydd am baratoi ar gyfer holi wedi'i dargedu drwy sgwrs sy'n cynnwys cwestiynau anuniongyrchol. Bydd hyn yn creu mwy o gytgord â'r cleient.

Gellir cynnwys esboniad o'r rheswm dros ofyn y cwestiynau fel:

“Rydw i wedi sylwi ar yr arwyddion/symptomau hyn”

“Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei rhoi i mi”

a gofyn cwestiwn anuniongyrchol wedyn fel:

Oes unrhyw broblemau neu resymau sy'n cyfrannu at yr arwyddion a symptomau hyn?

Oes rhywbeth yn digwydd yn eich bywyd sy'n achosi'r arwyddion a symptomau hyn?

Gall y cwestiynau hyn ysgogi datgeliadau gan eich cleientiaid am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol neu am faterion eraill sy'n galw am gymorth. Yn achos cleientiaid eraill, ni fydd dull o'r fath yn ddigon clir i'w ddeall neu ni fydd yn ddigon i chwalu'r rhwystrau personol i ddatgelu. Felly mae'n bwysig bod ymarferwyr hefyd yn gofyn cwestiynau uniongyrchol lle bo angen ar ôl gofyn cwestiynau anuniongyrchol. Rhaid i'r ymarferydd fod yn sicr ei fod wedi gofyn y cwestiwn angenrheidiol ar gyfer “Gofyn a Gweithredu” a bod y cleient wedi deall y cwestiwn hwn.

Cwestiynau uniongyrchol

Er ei bod yn bwysig bod cwestiynau uniongyrchol yn glir a chryno, dylid bod yn ofalus ac yn sensitif iawn wrth eu gofyn. Mae'n bwysig bod yr ymarferydd yn ymarfer gofyn y cwestiynau ac yn eu hystyried yn drwyadl er mwyn gallu eu gofyn mewn ffordd glir a chartrefol sy'n normaleiddio'r broses i'r cleient.

Mae rhai enghreifftiau o gwestiynau uniongyrchol wedi'u darparu isod er mwyn dechrau datblygu ymarfer yr ymarferydd yn y maes hwn. Ni ddylid defnyddio'r adran hon fel sgript – canllaw yn unig yw hwn.

“Mae cam-drin yn y cartref yn gyffredin iawn ac weithiau mae'n gallu achosi i bobl ymddwyn neu deimlo yn y ffordd rydych chi wedi'i disgrifio heddiw. Mae

cam-drin yn derm sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio partner neu aelod o'r teulu yn eich brifo chi neu'n achosi gofid i chi – gallai hyn olygu'ch brifo'n gorfforol, gallai olygu rheoli'ch materion ariannol neu gallai olygu galw enwau arnoch chi neu frifo'ch teimladau drwy'r pethau mae'n eu dweud. Gallai hefyd olygu'ch gwthio i wneud pethau dydych chi ddim am eu gwneud yn rhywiol. Ydy hyn yn digwydd i chi?"

"Mae rhai o'r pethau rydych chi wedi'u dweud wrthyf i heddiw yn fy mhoeni ac rwy'n poeni am y pethau y gallech chi fod yn eu profi yn eich bywyd personol. Ydy rhywun yn eich brifo chi mewn rhyw ffordd neu ydych chi'n ofni y bydd rhywun yn eich brifo chi yn y dyfodol?"

"Mae rhai o'r pethau rydych chi wedi'u disgrifio yn arwyddion bod rhywun yn dioddef niwed neu gam-drin gan bartner neu aelod o'r teulu. Ydy hyn yn digwydd i chi?"

Nid yw nifer mawr o'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gyfarwydd ag iaith o'r math hwn. Mae'n bwysig bod yr ymarferydd yn gallu trafod y termau hyn a'u hegluro a'u troi'n gwestiynau am ymddygiad, yn hytrach na therminoleg. Bydd hyn yn arbennig o wir am pobl iau sydd yn aml yn tueddu i normaleiddio'r profiad o drais, gorfodi neu drais rhywiol dan law partner.

Mae rhai enghreifftiau isod o gwestiynau seiliedig ar ymddygiad:

"Ydy'ch partner/ aelod(au) o'ch teulu yn mynd yn genfigennus os ydych chi'n gweld ffrindiau, yn siarad â phobl eraill, yn mynd allan? Os ydyn nhw, beth sy'n digwydd wedyn?"

"Fydd eich partner yn eich cosbi chi o gwbl os na fyddwch chi'n gwneud beth mae am i chi ei wneud?"

"Ydy'ch partner/ aelod o'ch teulu yn colli ei dymer gyda chi? Os ydy, beth sy'n digwydd o ganlyniad?"

"Ydy rhywun yn eich teulu wedi bygwth eich brifo neu eich gorfodi i wneud rhywbeth dydych chi ddim am ei wneud?"

"Ydych chi'n ofni rhywun yn eich bywyd?"

"Pwy sy'n penderfynu beth rydych chi'n cael ei wneud a ddim yn cael ei wneud?"

"Oes rhywbeth yn digwydd nawr sy'n gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus?"

"Oes rhywbeth wedi digwydd i chi yn y gorffennol sydd wedi gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus?"

"Ydych chi'n gallu cael at eich arian eich hun a dewis sut i'w wario?"

Mae'n bwysig na fydd yr ymarferydd yn canolbwyntio'n ormodol ar drais corfforol ar draul mathau emosiynol, seicolegol ac ariannol ac agweddau eraill ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan fod pob un o'r rhain yn niweidiol ac i'w cymryd o ddifrif.


Os bydd cleient yn gwneud rhyw gyfeiriad at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol neu'n cydnabod ei brofiad yn rhannol, mae'n bwysig na fydd yr ymarferydd yn pwysu arno i'w ddatgelu'n llawn os nad yw'r cleient yn teimlo'n esmwyth wrth wneud hynny. Cofiwch y bydd angen i'r cleient drechu nifer o rwystrau personol cyn gwneud datgeliad; byddwch yn amyneddgar, yn gyson ac yn sensitif.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am drechu rhwystrau i ddatgelu yma.



Delio â datgeliad

Bydd yr ymateb gan yr ymarferydd yr un mor bwysig â'r cwestiwn a ofynnir. Mae'n bosibl mai hwn fydd y tro cyntaf i'r cleient ddatgelu ei brofiad ac mae'n debygol o fod yn ofnus o'r goblygiadau o wneud hynny. Bydd ymateb yr ymarferydd yn hanfodol o ran rhoi tawelwch meddwl i'r cleient. Mae rhai sydd wedi goroesi camdriniaeth wedi sôn am golli eu hymddiriedaeth mewn gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymddangos nad oeddent yn cymryd eu datgeliad o ddifrif.



Wrth ymarfer

- **Y cleient yn datgelu profiad o gam-drin presennol neu hanesyddol**

Os bydd y cleient yn datgelu profiad o gam-drin, bydd yn bwysig bod yr ymarferydd yn credu ac yn dilysu'r wybodaeth y mae'r cleient yn ei darparu. Bydd nifer o gleientiaid yn ofni na fydd pobl yn eu credu ac mae'n bwysig bod yr ymarferydd yn dilysu'r profiad ac yn cydnabod bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faterion difrifol sy'n cael eu cymryd o ddifrif gan y sefydliad.

Rhaid i'r datganiadau dilysu fod yn gyson ag ymarweddiad yr ymarferydd ac felly ni ddylent gael eu sgriptio. Fodd bynnag, dyma rai enghreifftiau o ddatganiadau dilysu:

"Mae'n cymryd rhywun dewr iawn i rannu'r hyn a ddywedaist ti heddiw"

"Does neb yn haeddu cael ei gam-drin. Does dim esgus dros drais ac rwyf ti'n haeddu gwell"

“Rwy’n poeni am dy ddiogelwch a dy les ond mae opsiynau ac adnoddau ar gael i ti”

“Dwyt ti ddim ar dy ben dy hun”

“Nid ti sydd ar fai am y cam-drin / trais”

Dylech sicrhau’r cleient drwy ddweud bod y sefydliad yn deall sut mae cam-drin a thrais yn gallu effeithio arno a sôn am y cymorth sydd ar gael.

Mae’n bwysig na fydd yr ymarferydd yn ymddangos ei fod wedi synnu neu wedi dychryn ar ôl clywed y datgeliad.

Bydd hefyd yn bwysig i’r ymarferydd ystyried y canlynol:

- Diogelwch y cleient ac unrhyw blant neu oedolion sy’n gysylltiedig;
- A oes angen rhoi sylw meddygol ar fyrder i unrhyw anaf;
- Pa mor ddiogel yw hi i’r cleient ddychwelyd adref a beth ellir ei gynnig i liniaru risg;
- Sut y bydd y datgeliad yn cael ei drafod, un ai o fewn y sefydliad neu drwy bartneriaethau (gweler y wybodaeth ychwanegol yn y camau o’r broses sy’n weddill);
- Opsiynau ar gyfer parhau i ddarparu gofal.

Fel y mae’r canllawiau hyn wedi dangos, mae nifer o anhwylderau iechyd corfforol a meddyliol yn ddangosyddion o’r profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fodd bynnag, mae’n bwysig iawn, yn dilyn datgeliad, fod y cleient yn parhau i gael gofal am yr anhwylder iechyd sydd ganddo. Mae rhai sydd wedi goroesi camdriniaeth yn sôn am y profiad o weld bod datgelu cam-drin yn arwain at derfynu gwasanaethau ar gyfer problemau iechyd, neu’r ofn y bydd hynny’n digwydd, ar sail y rhagdybiaeth y bydd dangosyddion yr anhwylder yn diflannu os byddant yn cael cymorth i ddianc o’r sefyllfa lle maent yn cael eu cam-drin. Mae’n bwysig gweithredu mewn ffordd gyfannol fel y bydd y profiad o gam-drin yn cael ei weld yn angen ychwanegol, nid yn angen sy’n cymryd lle un arall. Mae rhai sydd wedi goroesi camdriniaeth yn sôn am yr ofn y gallent gael eu gorfodi i ddewis rhwng cael cymorth meddygol a datgelu’r cam-drin.¹³

Nid yw’r cleient yn datgelu profiad o gam-drin

Bydd achosion lle sylwir ar ddangosydd o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a lle nad yw’r cleient yn datgelu profiad o gam-drin. Mewn achosion o’r fath, mae’n bwysig ystyried y canlynol:

Nid proses croesholi yw “Gofyn a Gweithredu”

Mae’n bosibl y bydd yr ymarferydd yn parhau i bryderu am y cleient ond ni fydd ei herio ynghylch ei ateb yn debygol o wella’r ymgysylltu rhyngddynt. Dylai’r cleient gael dewis bob amser ynghylch beth fydd yn ei ddatgelu ac mae’n bosibl nad yw’n barod i rannu gwybodaeth.

Peidiwch â diystyru'ch barn broffesiynol

Bydd achosion lle na fydd y cleient yn datgelu profiad o gam-drin ond lle bydd yr ymarferydd yn bryderus o hyd ynghylch ei ddiogelwch a'i lesiant. Gall greddf yr ymarferydd fod yn un o'i sgiliau mwyaf felly ni ddylid ei diystyru. Dylai'r ymarferydd ystyried beth yw ei bryderon a pha dystiolaeth sydd ganddo dros gredu bod lle i bryderu. Dylid codi'r mater ymhellach gyda rheolwr er mwyn ystyried a yw'r pryder yn cwrdd â'r maen prawf cyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth a pha gamau y gellir eu cymryd i ddiogelu'r cleient.


Mae dangosyddion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ddangosyddion hefyd ar gyfer mathau eraill o risg ac ymddygiad sy'n peri pryder.

Mae'n bwysig cofio ei bod yn bosibl nad yw profiad y cleient yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac y gallai fod yn arwydd o risgiau eraill. Byddai cwestiwn dilynol i ofyn a oes rhywbeth arall y mae'r cleient am ei rannu yn gallu bod yn effeithiol. Bydd cyfeiriadur ar wasanaethau lleol perthnasol sy'n gysylltiedig ag anghenion cymhleth eraill fel camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl neu hunan-niweidio yn eich helpu i wneud atgyfeiriadau priodol.

Dylai fod gan bob sefydliad ddeunyddiau syml i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau lleol y gellir eu rhoi i gleientiaid (os gellir gwneud hynny'n ddiogel) os byddant am eu defnyddio yn y dyfodol.

Yn fwy na dim, mae'n hanfodol nad yw "Gofyn a Gweithredu" yn cael ei weld yn ymyriad untro. Dywedir yn aml am y rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol eu bod yn mynd drwy **Gamau Newid** yn eu ffordd o edrych ar eu sefyllfa.¹⁴ Y camau hyn fydd yn pennu pa mor barod a galluog y mae'r cleient yn teimlo i newid ei fywyd, mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gall hyn olygu ei barodrwydd i gydnabod ei sefyllfa, i ddatgelu gwybodaeth neu i gymryd camau i ddianc oddi wrth y cam-drin y mae'n ei brofi.

Camau newid



Dyma enghreifftiau o Gamau Newid mewn perthynas â phrofi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol:

Cyn-fyfyrio: Nid yw'r cleient yn cydnabod ei fod yn profi cam-drin neu'n gweld pam mae gwasanaethau'n pryderu amdano.

Myfyrio: Mae'r cleient yn cydnabod bod problem yn ei berthynas, mae ganddo rai pryderon ond nid yw o reidrwydd am wneud dim yn ei gylch neu nid yw'n gwybod beth i'w wneud.

Paratoi: Mae'r cleient yn cydnabod y cam-drin, yn dymuno i bethau newid ac yn ystyried beth allai wneud gwahaniaeth: gall hyn olygu darllen taflenni, meddwl am opsiynau ar gyfer gadael neu ddod o hyd i gymorth.

Gweithredu: Mae'r cleient yn newid. Gall hyn olygu ffonio llinell gymorth neu alw'r heddlu am y tro cyntaf.

Cynnal: Mae'r cleient wedi newid, er enghraifft drwy adael partner camdriniol, ac mae'n cynnal y newid drwy ymatal rhag cysylltu a thrwy roi gwybod am ddigwyddiadau dilynol.

Llithro/ail-lithro'n ôl: Roedd y cleient wedi newid ac wedi cynnal y newid am gyfnod. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae wedi troi'n ôl i raddau bach at ei sefyllfa flaenorol, er enghraifft drwy ateb galwadau ffôn oddi wrth rywun sy'n ei gam-drin, neu droi'n ôl yn llwyr at ei ymddygiad blaenorol, er enghraifft drwy ddychwelyd i gartref y teulu er mwyn ailddechrau perthynas â'r camdriniwr. Mae llithro ac ail-lithro'n ôl yn rhannau pwysig o brofiad y cleient. Maent hefyd yn hollol normal ac yn ymwneud â chymhlethdod a natur lechwraidd y cam-drin. Rhaid peidio byth â rhoi bai ar y dioddefwr am ei ddewisiadau ar y cam newid hwn.

Mae'r model gwaith hwn wedi cael ei ddehongli mewn gwahanol ffyrdd ers ei greu. Bellach mae rhai sy'n defnyddio'r camau newid yn eu cyflwyno ar ffurf troell er mwyn adlewyrchu profiad eu cleientiaid yn fwy priodol. Mae ymchwil fwy diweddar yn awgrymu hefyd nad y Model Camau Newid yw'r ffordd fwyaf cywir o ddangos yr ysgogiad i newid.¹⁵ Er enghraifft, gallai fod yn well disgrifio parodrwydd i dderbyn triniaeth fel continwum y bydd pobl yn symud ar ei draws yn eithaf dirwys yn hytrach na chyfres o gamau gwahanol.¹⁶ Hefyd, ychydig iawn y mae'r model hwn yn ei ddweud wrth ymarferwyr am y rheswm y mae unigolyn yn barod neu'n amharod am newid, felly nid yw'n ymatebol iawn i anghenion yr unigolyn. Er hynny, mae'n ddefnyddiol o hyd fel ffordd i'ch atgoffa y bydd pob un o'ch cleientiaid ar gam penodol ar daith bersonol iawn.

Mae'n bwysig bod yr awdurdod perthnasol yn cynnig gwasanaethau ac yn arfer y dull holi wedi'i dargedu **ar bob cyfle perthnasol**. Drwy wneud hynny, bydd mwy o gyfleoedd i gynnig gwasanaethau ar adeg pan fyddant yn fwyaf tebygol o gael eu derbyn neu i ofyn cwestiynau pan fydd y cleient yn barod i'w hateb. Er na fydd cleient ar y cam cyn-fyfyrion yn datgelu cam-drin, mae'n bosibl y bydd un sydd ar y cam myfyrion neu baratoi yn barod i ystyried y cwestiwn ac, wrth ei ofyn, gall yr ymarferydd gynnig nifer o wasanaethau a fydd yn gallu sefydlogi ymhellach y newid y mae'r cleient am ei wneud a gwneud y cleient yn fwy diogel. Wrth gwrs, dylai'r model hwn gael ei ystyried yng nghyd-destun anghenion penodol y cleient.



Adnabod Risg

Y peth gorau fel arfer yw i'r broses adnabod risg gael ei chyflawni gan arbenigwr mewn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae dull sefydliadol sy'n atgyfeirio cleientiaid i wasanaethau sy'n arbenigo mewn adnabod risg yn ffordd dderbyniol i ddarparu'r gwasanaeth hwn i'r cleient. Fodd bynnag, mae'r adran hon yn amlinellu pwrpas adnabod risg ac yn disgrifio proses bosibl ar ei gyfer i'r sefydliadau hynny sydd am ei chynnwys yn eu harferion eu hunain.

Un o nodau "Gofyn a Gweithredu" yw adnabod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r rhain yn cynnwys llawer o wahanol fathau o ymddygiad, a gyflawnir gan bartneriaid, cyn-bartneriaid ac aelodau o'r teulu neu ddieithriaid a rhai o'u cydnabod, sy'n cwmpasu'r canlynol:

- Cam-drin domestig
- Trais rhywiol (o fewn perthynas ac fel arall)
- FGM
- Priodasau dan orfod
- Cam-drin ar sail "anrhydedd"
- Stelcio ac aflonyddu (o fewn perthynas ac fel arall)
- Camfanteisio rhywiol

Mae proses adnabod risg wedi'i phennu ar gyfer nifer o'r profiadau hyn. Gall gwaith ar adnabod risg fod yn gysylltiedig â'r perygl sy'n cael ei achosi gan y camdriniwr a'r perygl sy'n cael ei wynebu gan y dioddefwr. Yn y canllawiau hyn rydym yn canolbwyntio'n benodol ar y perygl y mae'r dioddefwr yn ei wynebu gan fod adnabod ac asesu risg oddi wrth gamdrinwyr yn weithgarwch arbenigol. Nid yw'r offer a phrosesau sydd wedi'u nodi yma yn addas i'w defnyddio gyda chamdrinwyr.

Yn y cyd-destun hwn, nid yw "adnabod risg" yn golygu **pennu pwy sy'n fwyaf tebygol o brofi'r problemau hyn; mae'r broses i'w defnyddio ar ôl cael gwybod bod rhywun yn profi'r problemau hyn.** Mae'r risg a asesir yn ymwneud â mathau penodol o ymddygiad sy'n gysylltiedig â niwed difrifol a marwolaeth a cham-drin sy'n gwaethygu.

Mae nifer o offer adnabod risg ar gael yn rhyngwladol sy'n gymwys i wahanol fathau o gam-drin domestig, cam-drin rhywiol (o fewn perthynas), priodasau dan orfod, cam-drin ar sail anrhydedd a stelcio ac aflonyddu. Nid ydynt yn gysylltiedig â'r profiad penodol o FGM, trais rhywiol wedi'i gyflawni gan rywun dieithr neu gan gydnabod, neu fathau eraill o drais seiliedig ar rywedd ac ni ddylid eu defnyddio mewn achosion o'r fath. Mae offer eraill ar gael ar gyfer adnabod/asesu risg o fathau eraill o drais yn erbyn menywod a thrais rhywiol ond, am nad ydynt ar gael i gynulleidfa ehangach (h.y. maent i'w defnyddio gan arbenigwyr) neu am eu bod yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, nid ydynt yn cael eu trafod ymhellach yn y canllawiau hyn. Fodd bynnag, mae rhagor o wybodaeth ar gael am offer trais rhywiol yma. Mae mwy o wybodaeth am offeryn mwy trwyadl i adnabod risg o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar gael yma.

Nid yw adnabod risg yn rhan orfodol o'r broses "Gofyn a Gweithredu". Er hynny, mae'n bosibl y bydd sefydliadau'n dewis cynnwys y cam hwn os ydynt yn credu y byddai'n effeithiol ar gyfer eu grŵp cleientiaid. Bydd hyfforddiant Llywodraeth Cymru ar y broses "Gofyn a Gweithredu" yn trafod adnabod risg fel cysyniad ond ni fydd yn cynnig hyfforddiant ffurfiol ar ddefnyddio unrhyw offeryn penodol. Mae gwybodaeth am offeryn y gellir ei ddefnyddio wedi'i darparu isod.

Ymateb i berygl sy'n bod ar y pryd

Hyd yn oed os nad yw'r sefydliad yn cynnal proses ffurfiol ar gyfer adnabod risg, bydd yn angenrheidiol bod pob ymarferydd sy'n defnyddio'r broses "Gofyn a Gweithredu" yn ystyried a yw'r person sydd wedi datgelu'r profiad o gam-drin mewn perygl ar y pryd a pha gamau sydd angen eu cymryd i gynnig amddiffyniad iddo.

Er mwyn cael gwybod a yw'r cleient mewn perygl ar y pryd, mae'n bosibl y byddwch am ystyried y cwestiynau canlynol:

- Ble mae'r camdriniwr nawr?
- A yw'n ddiogel i chi ddychwelyd adref?
- A ydych yn poeni am ddychwelyd adref?
- A ydych yn poeni am beth fydd yn digwydd pan fyddwch yn gadael y lle hwn heddiw?
- A ydych wedi cael eich anafu?
- Ble mae'ch plant; a ydynt wedi'u hanafu?

Os yw'r cleient mewn perygl ar y pryd, dylech ffonio 999.

Astudiaeth achos

Roedd swyddog tai wedi gweld tenant benywaidd yn wynebu ymddygiad ymosodol gan ei phartner. Roedd y swyddog tai hefyd wedi profi'r ymddygiad ymosodol hwn. Roedd y tenant wedi sôn hefyd nad oedd ganddi allwedd i'w heiddo ond bod allwedd gan ei phartner: roedd hyn yn peri pryder i'r swyddog tai.

Gwnaeth y swyddog tai ymholiadau sensitif wrth siarad â'r tenant am ymddygiad ei phartner, gan fynegi pryder am yr ymddygiad roedd wedi'i weld. Ymatebodd y tenant i'r ymholiadau drwy ddweud nad oedd problemau a gwrthododd gynigion o gymorth.

Y diwrnod ar ôl gwneud yr ymholiadau cyntaf, cysylltodd y tenant â'r swyddog tai a datgelu bod ei phartner wedi mynd i'w lle gwaith, wedi ymddwyn yn ymosodol a bod pobl a oedd yn mynd heibio wedi cysylltu â'r heddlu. Dywedodd y tenant fod arni angen cymorth a'i bod am ddod â'r berthynas i ben.

Trefnwyd apwyntiad i gwrdd â'r tenant a gwahoddwyd Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig i'r cyfarfod hwn. Fodd bynnag, y diwrnod wedyn roedd y tenant wedi ffonio i ganslo'r apwyntiad, gan awgrymu nad oedd angen cymorth arni bellach gan ei bod hi a'i phartner wedi cael sgwrs a'i fod ef wedi cytuno i gael help gyda rhai o'r problemau roedd yn eu hwynebu (ni roddwyd manylion am y problemau hyn).

Gan fod y swyddog tai yn parhau i bryderu am y cleient, roedd wedi trafod y manylion gyda'i 'hyrwyddwr' hyfforddedig Grŵp 3. Yn yr achos hwn, penderfynwyd gwneud cais am waharddeb sifil yn erbyn partner y tenant ar sail ei ymddygiad ymosodol a difriol tuag at staff tai cymdeithasol yr awdurdod lleol, a chafwyd y waharddeb ar ôl hynny.

Roedd y rheini a oedd yn gysylltiedig yn hyderus y byddai'r camau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y tenant ond nid oeddent wedi'i gorfodi i gymryd camau cyn ei bod yn barod i wneud hynny.

Offer adnabod risg

Ledled Cymru, yng nghyswllt cam-drin domestig, cam-drin rhywiol (o fewn perthynas), priodasau dan orfod, cam-drin ar sail anrhydedd, a stelcio ac aflonyddu, defnyddir un offeryn adnabod risg gan y rhan fwyaf o'r asiantaethau cyfiawnder troseddol, gwasanaethau arbenigol a chan rai awdurdodau perthnasol.

Yr enw ar yr offeryn hwn yw Rhestr Wirio Risg DASH (Domestic Abuse, Stalking, Harassment and Honour Based Violence). Cafodd ei cyhoeddi gan yr elusen Safelives a'i datblygu mewn partneriaeth â Laura Richards ar ran Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a thrwy ymgynghori â CAF/CASS, Respect ac arbenigwyr pwnc annibynnol.¹⁷

Nod Rhestr Wirio Risg DASH (Domestic Abuse, Stalking, Harassment and Honour Based Violence):


- Helpu ymarferwyr rheng flaen i adnabod risg mewn achosion o gam-drin domestig, stelcio a thrais ar sail 'anrhydedd'.
- Penderfynu pa achosion y dylid eu hatgyfeirio i'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) a pha gymorth arall sydd ei angen. Ar ôl llenwi'r ffurflen, bydd yn gofnod 'byw' y gellir cyfeirio ato yn y dyfodol wrth reoli achosion.
- Cynnig offeryn cyffredin i asiantaethau sy'n cymryd rhan yn y broses MARAC a darparu cyd-ddealltwriaeth o risg yng nghyswllt cam-drin domestig, stelcio a cham-drin ar sail 'anrhydedd'.
- Galluogi asiantaethau i wneud penderfyniadau amddiffynadwy ar sail tystiolaeth o ymchwil helaeth i achosion, gan gynnwys achosion o ddynladdiad domestig ac achosion a oedd 'bron â digwydd', sy'n ategu'r rhan fwyaf o fodolau asesu risg cydnabyddedig.

Dyma'r offeryn sy'n cael ei ddefnyddio yn eich ardal chi, yn ôl pob tebyg.

Cyflwynwyd Rhestr Wirio DASH fel offeryn asesu risg amlasiantaethol yn 2009.

Mae'r Rhestr Wirio wedi'i bwriadu **i'w defnyddio gan arbenigwyr ac ymarferwyr cam-drin domestig sy'n gweithio ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus**. Mae wedi'i **seilio ar dystiolaeth**; mae'r ffactorau risg sydd ynddi yn deillio o ymchwil helaeth gan academyddol blaenllaw yn y maes i achosion o ddynladdiad domestig ac achosion a oedd 'bron â digwydd'. Gellir gweld y sylfaen ymchwil ar gyfer pob ffactor yng nghanllaw ymarfer yr offeryn drwy ddilyn y ddolen sydd wedi'i darparu yn yr adran dolenni defnyddiol yn y canllawiau hyn. Gellir trefnu'r dangosyddion a restrwyd yn ffactorau sy'n ymwneud ag ymddygiad ac amgylchiadau'r camdriniwr/camdrinwyr honedig ac amgylchiadau'r dioddefwr. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth sydd ar gael o ymchwil, sy'n sail i'r ffactorau risg, yn ymwneud â chamdrinwyr gwrywaidd a dioddefwyr benywaidd mewn perthynas bersonol

bresennol neu flaenorol. Ar y cyfan, mae'r ffactorau risg yn ymwneud â'r perygl o ymosod pellach, er bod rhai ohonynt yn gysylltiedig â'r perygl o ddynladdiad.



Wrth ymarfer

Pa bryd i ddefnyddio'r rhestr wirio

- Dylid defnyddio'r rhestr wirio gyda phob cleient sy'n datgelu cam-drin domestig, stelcio a thrais ar sail 'anrhydedd' presennol i ymarferydd.

Mae'r Rhestr Wirio wedi cael ei datblygu ar y sail bod rhywun yn dioddef cam-drin 'presennol' os yw wedi profi unrhyw fath o gam-drin (gan gynnwys cam-drin seicolegol, ariannol, rhywiol a chorfforol) yn y tri mis diwethaf. Fodd bynnag, nid yw hyn yn absoliwt; fe all risg newid a bydd sefyllfa pob cleient yn wahanol. Felly mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn ystyried y terfyn amser uchod yng nghyd-destun amgylchiadau penodol pob cleient.

Mae'r rhestr wirio yn cynnwys cwestiynau am ffactorau risg sefydlog a dynamig:

- Y ffactorau risg sefydlog yw'r rheini na fyddant yn newid. Er enghraifft, os yw'r camdriniwr *erioed* wedi bygwth lladd y dioddefwr neu rywun arall neu os yw *erioed* wedi bygwth neu geisio ei ladd ei hun.
- Y ffactorau risg dynamig yw'r rheini sy'n ymwneud â sefyllfa bresennol y cleient, fel beichiogrwydd, newid yn ei statws ariannol, anabledd neu gam-drin rhywiol.

Lle mae'r cwestiynau yn y rhestr wirio yn cyfeirio at y 'presennol' (e.e. "a yw'r digwyddiad presennol wedi arwain at anaf" fel y nodwyd uchod), mae'r term hwn yn cyfeirio at gyfnod o hyd at dri mis. Felly, wrth ymarfer, ni fydd yn hawdd cymhwyso'r rhestr wirio at achosion hanesyddol, h.y. os yw'r cam-drin wedi dod i ben ac os oes angen cymorth ar y cleient i wella ar ôl trawma hanesyddol.

Gyda phwy y mae'r rhestr wirio i'w defnyddio?

Mae'r rhestr wirio wedi'i bwriadu i'w defnyddio gydag oedolion sydd wedi dioddef cam-drin domestig, stelcio a thrais ar sail 'anrhydedd' (y rheini sy'n hŷn na deunaw mlwydd oed). Mae ffurflen benodol wedi'i haddasu i'w defnyddio gyda phobl ifanc hefyd ar gael ac mae gwaith mewn llaw ar hyn o bryd i ystyried a ddylid datblygu offeryn ychwanegol ar gyfer pobl hŷn. ¹⁸

Wrth ddefnyddio'r rhestr wirio:

Gallwch ddefnyddio'r rhestr wirio i'ch cymell i geisio deall beth mae'r cleient yn ei brofi ac ystyried pa wasanaethau a fyddai o gymorth iddo. Fodd bynnag, os ydych

yn defnyddio'r rhestr wirio yn ffurfiol (o dan bolisi sefydliadol sy'n pennu bod adnabod risg yn rhan o'r broses "Gofyn a Gweithredu" neu er mwyn cydgysylltu â fforymau amlasiantaethol ffurfiol lleol sy'n defnyddio'r rhestr wirio ar gyfer atgyfeirio), ystyriwch y canlynol:

- ✓ Mae'n bwysig iawn gofyn **yr holl** gwestiynau ar y rhestr i gael darlun cynhwysfawr o'r peryglon y mae rhywun yn eu profi. Os bydd cwestiwn yn cael ei adael allan, mae perygl o golli rhywbeth pwysig, fel y bydd yr ymateb i'r cleient yn annigonol.
- ✓ Dylai'r ymarferydd fod yn gyfarwydd â'r rhestr cyn ei defnyddio gyda'i gleient cyntaf fel y bydd yn teimlo'n hyderus ynghylch perthnasedd a goblygiadau pob cwestiwn.
- ✓ Dylai'r ymarferydd sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r mesurau ar gyfer rheoli risg a diogelwch y gall eu cynnig a rhaid iddo wybod pa adnoddau lleol a chenedlaethol sydd ar gael i'r cleient.

Rhoi'r Rhestr Wirio Risg ar Waith.



Egluro polisi cyfrinachedd y sefydliad
Egluro'r polisi "Gofyn a Gweithredu"
Nodi'r dangosydd cam-drin
Darparu lle diogel
Gofyn y cwestiwn
Gwneud datgeliad

Opsion 1: atgyfeirio ar gyfer adnabod risg

Trefnu i gysylltu ar unwaith â darparwr gwasanaethau arbenigol i gynnal y broses gychwynnol i adnabod risgiau ac egluro'r opsiynau gwasanaeth

Gellir hwyluso hyn mewn nifer o ffyrdd, yn ôl amgylchiadau'r sefydliad:

- ✓ Drwy wasanaeth wedi'i gyd-leoli
- ✓ Drwy brotocolau atgyfeirio lleol effeithiol
- ✓ Drwy ddefnyddio'r llinell gymorth Byw Heb Ofn ddi-dâl

Egluro'r gwasanaeth y gellir ei gynnig drwy'r gwasanaeth cyhoeddus

Darparu gwasanaethau arbenigol

Cyn llenwi'r rhestr wirio, dylai'r gweithiwr proffesiynol gael gwybod:

Faint o amser sydd gan y cleient i siarad ag ef.

Manylion cyswllt diogel y cleient rhag ofn i'r alwad ffôn gael ei therfynu neu os bydd yn rhaid iddo adael ar frys.

A yw'r camdriniwr gerllaw, a yw'n cael ei ddisgwyl yn ôl neu a yw'r cleient yn ei ddisgwyl yn ôl ar amser penodol.

Os mai galwad ffôn yw hon, a yw'n ddiogel i'r cleient siarad ar y pryd.

A hefyd:

Cyflwyno'r cysyniad o risg i'ch cleient ac egluro pam eich bod yn gofyn y cwestiynau hyn.

Opsion 2: cynnig proses "fewnol" o adnabod risg

Os yw'n bosibl, llenwi'r rhestr wirio y tro cyntaf i chi ddod i gysylltiad â'r cleient.

Cyflwyno'r Rhestr Wirio Risg a'i hegluro

Gofyn i'r cleient a gewch chi ofyn y cwestiynau sydd ar y ffurflen

Mynd drwy'r ffurflen

Egluro canlyniadau'r ffurflen

Ystyried opsiynau gwasanaeth gyda'r cleient

Egluro'r gwasanaeth y mae'r gwasanaeth arbenigol yn gallu ei gynnig

Barn broffesiynol a sefyllfa sy'n gwaethygu

9 tic neu lai*

Gwasanaethau arbenigol

10 tic neu fwy

Gwasanaethau IDVA
Gwasanaethau arbenigol

14 tic neu fwy

IDVA a MARAC

* Mater i bob gwasanaeth unigol yw penderfynu ar drothwyon ar gyfer darparu gwasanaeth a mater i bartneriaethau lleol yw cytuno ar drothwyon ar gyfer fforymau amlasiantaethol.

Gellir defnyddio'r Rhestr Wirio Risg i osod trothwyon ar gyfer strwythuro gwasanaethau lleol ac i greu'r porth ar gyfer fforymau amlasiantaethol lleol. Mater i bartneriaethau lleol yw cytuno ar drothwyon priodol sy'n cwrdd ag anghenion lleol. Fodd bynnag, mae amlinelliad (seiliedig ar y trothwy sydd wedi'i argymhell gan Safelives) wedi'i ddarparu isod:

Barn broffesiynol

Mae barn broffesiynol yr ymarferydd yn hollbwysig ym mhob achos; nid yw'r canlyniadau o restr wirio yn asesiad diffiniol o risg. Mae'r canlyniadau'n rhoi strwythur ar gyfer goleuo barn ac yn ffordd i ysgogi cwestiynau pellach, dadansoddi a rheoli risg. Nid yw'r rhestr wirio yn dangos maint neu bwysoliad unrhyw risg.¹⁹

Os oes gan yr ymarferydd bryderon difrifol am sefyllfa'r dioddefwr, dylai atgyfeirio'r achos i MARAC neu i'r gwasanaeth Cyngorwyr Annibynnol ar Drais Domestig sydd ynghlwm wrth MARAC. Dylid ystyried hyn wrth ddatblygu protocolau ar gyfer atgyfeirio.

Bydd adegau pan fydd cyd-destun penodol yr achos yn codi pryderon difrifol hyd yn oed os nad yw'r dioddefwr wedi gallu datgelu'r wybodaeth a allai ddangos y risg y mae'n ei hwynebu yn gliriach. Gallai hyn fod yn arwydd o ofn mawr, rhwystrau diwylliannol i ddatgelu, materion mewnffudo neu rwystrau iaith, yn enwedig mewn achosion o drais ar sail 'anrhydedd'. Bydd y farn hon yn seiliedig ar brofiad yr ymarferydd a/neu ganfyddiad y dioddefwr o'r risg y mae'n ei hwynebu, hyd yn oed os na sylwir ar ffactorau risg gweladwy a gwaethygu yn y sefyllfa.

'Risg uchel weladwy': nifer y 'ticiau' sydd ar y rhestr wirio. Os yw 10 neu fwy o flychau 'ie' wedi'u ticio, dylid ystyried yr achos yn un "risg uchel". Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o gynadleddau MARAC lleol yn gosod meini prawf uwch na hyn, sef 14 tic, i ddarparu trothwy priodol ac ymarferol i'r fforwm hwn.

Mae'r opsiwn 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys ar y ffurflen ar gyfer cwestiynau nad yw'r dioddefwr yn gwybod yr ateb iddynt. Dylid ei ddefnyddio lle byddai ticio 'na' yn rhoi lefel risg gamarweiniol o isel.

Gwaethygu posibl: rhaid i weithwyr proffesiynol fod yn effro i unrhyw ddatgeliad bod cam-drin wedi gwaethygu o ran ei amllder a/neu ei ddifrifoldeb. Dylid ystyried hyn yn ofalus drwy drafod â'r cleient ond dylai'r ymarferydd hefyd ystyried nifer y digwyddiadau hysbys o gam-drin a brofodd y dioddefwr o ganlyniad i gam-drin domestig yn y 12 mis diwethaf. Gellir defnyddio'r maen prawf hwn i nodi achosion lle nad yw mwyafrif y ffactorau risg ar y rhestr wedi'u hadnabod yn bendant, ond lle mae'n ymddangos bod y cam-drin yn gwaethygu a lle bydd yn briodol asesu'r sefyllfa'n fwy trylwyr drwy rannu gwybodaeth.

Mae cynadleddau MARAC yn gosod eu trothwyon eu hunain mewn perthynas â hyn ond mae nifer ohonynt yn dechrau ar dri digwyddiad neu fwy dros gyfnod o 12 mis. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn ôl nifer a lefel yr adroddiadau lleol gan yr heddlu.

Risg a grëir gan wasanaeth

Defnyddir y term “risg a grëir gan wasanaeth” yn Fframwaith Cynllunio Diogelwch y Gwasanaethau i Fenywod o dan y System Galedonaidd sy’n rhan o’r rhaglen hon ar gyfer camdrinwyr yn yr Alban.²⁰ Defnyddir y term am y senario lle mae systemau neu ymarfer yr ymarferwyr yn creu neu’n cynyddu’r risg i’r cleient oddi wrth y camdriniwr, neu’n creu rhwystrau ychwanegol i’r cleient.

Drwy gydweithio a chynnwys cam wrth gynllunio sy’n gofyn a fydd y camau sydd i’w cymryd yn cynyddu’r risg neu’r trafferthion i’r cleient oddi wrth y camdriniwr, bydd yr ymarferydd (a fforymau amlasiantaethol wedyn) yn gallu sicrhau eu bod yn gweithio i liniaru’r risgiau wrth iddynt ddod yn glir.

Nid yw adnabod risg a grëir gan wasanaeth yn rheswm dros ymatal rhag gweithredu. Yn hytrach, mae’n galw am wneud cynlluniau pellach i ddiogelu mewn achos penodol a rhoi sylw i unrhyw strwythurau sy’n creu risgiau o’r fath yn gyson a’u haddasu.

Egluro’r gwaith o adnabod risg i gleientiaid ac egluro’r canlyniadau o waith adnabod risg

Egluro risg a chyfrinachedd

Dylai’r ymarferydd atgoffa ei gleient am bolisi cyfrinachedd ei sefydliad cyn llenwi’r rhestr wirio. Gallai hefyd fod yn fuddiol darparu dogfennau am hyn, lle bynnag y gellir gwneud hynny’n ddiogel. Bydd hyn yn gwneud pethau’n fwy clir a thryloyw i’r cleient o ran sut a phryd y bydd yn bosibl i’r wybodaeth a ddatgelir ganddo gael ei defnyddio a’i rhannu. Gall hefyd fod yn syniad da egluro y bydd llenwi’r rhestr wirio yn ei helpu i ddeall ei sefyllfa’n well ac i benderfynu pa wasanaethau y byddai’n fwyaf priodol eu cynnig iddo.

Cyn dechrau llenwi’r rhestr wirio, gallai hefyd fod yn ddefnyddiol i chi gael gwybod:

- ✓ Faint o amser sydd gan y cleient i siarad â chi.
- ✓ Manylion cyswllt diogel y cleient rhag ofn y bydd yn gorfod gadael ar frys.
- ✓ A fydd yn ddiogel i chi adael neges llais neu anfon neges testun i rif ffôn y cleient.
- ✓ A yw’r camdriniwr o gwmpas, ar fin dychwelyd neu’n cael ei ddisgwyl ar amser penodol.
- ✓ Os yw’n alwad ffôn, a yw’n ddiogel i’r cleient siarad y funud honno.

Egluro’r canlyniadau i waith adnabod risg

Mae’n bwysig gwneud hyn mewn ffordd sensitif a gofalus i sicrhau na fydd y cleient yn dychryn o glywed canlyniad yr asesiad risg neu’n teimlo ei fod yn ormod i ymdopi ag ef neu, i’r gwrthwyneb, fod ei sefyllfa’n cael ei chymryd yn ysgafn. Mae’n hanfodol

na fydd y cleient yn teimlo cywilydd am geisio cymorth neu'n teimlo na fydd yn cael cymorth i ddelio â'r canlyniad.

Dylech ystyried yr egwyddorion canlynol wrth egluro'r canlyniad o'r ffurflen i'r cleient:

Darparu'ch tystiolaeth

Mae'n bwysig i chi ddweud beth yw'ch pryderon drwy gyfeirio at yr atebion a roddodd y cleient i chi a thrwy egluro eich barn fel ymarferydd.

Bod yn glir ynghylch y camau y byddwch yn eu cymryd

Mae'n bwysig i chi egluro beth fydd y camau nesaf, h.y. rheoli risg, cynlluniau diogelwch, atgyfeirio i gynhadledd MARAC a'r angen i gyflwyno adroddiad am blentyn neu oedolyn sydd mewn perygl.

Sicrhau eich bod yn rhoi sylw i bryderon presennol y cleient am ddiogelwch

Mewn sawl achos, bydd angen i chi dawelu meddwl y dioddefwr drwy ddweud bod systemau ar waith i sicrhau na fydd y gwasanaeth yn hysbysu neu'n cysylltu ag aelodau o'r teulu neu'r gymuned ehangach. Gallai cyswllt o'r fath roi'r dioddefwr mewn mwy o berygl.

Defnyddio'r offeryn ar gyfer gwahanol fathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Mae'r Rhestr Wirio Risg wedi'i seilio ar brofiad o bob math o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu, a thrais ar sail "anrhydedd". Fel y nodwyd uchod, mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y ffurflen yn ymwneud yn bennaf â menywod sydd wedi dioddef cam-drin gan ddynion, felly dylai ymarferwyr gynnwys ystyriaethau ychwanegol wrth ddefnyddio'r rhestr wirio gyda chleientiaid y mae eu sefyllfa neu eu hunaniaeth yn wahanol i'r brif sylfaen dystiolaeth.

Nid yw'r ffurflen yn addas ar gyfer achosion o gaethwasiaeth, trais rhywiol gan rywun dieithr neu gydnabod nac ar gyfer FGM. Nid oes asesiad risg cyfatebol ar gyfer y mathau hyn o gam-drin. Fodd bynnag, gellir ei defnyddio ar gyfer cam-drin domestig, trais rhywiol yn y teulu neu mewn perthynas bersonol, ar gyfer cam-drin ar sail 'anrhydedd', a stelcio ac aflonyddu (o fewn perthynas neu ar ôl terfynu perthynas).

Trais ar sail 'anrhydedd'

Mae'r cwestiynau ar y Rhestr Wirio Risg yn cynnwys y posibilrwydd bod y cleient yn wynebu risg oddi wrth fwy nag un camdriniwr gan ei bod yn gyffredin cael nifer o gamdrinwyr yn bresennol, yn enwedig mewn achosion o gam-drin ar sail 'anrhydedd'. Yn ogystal â hyn, mae cwestiynau uniongyrchol yn holi am drais ar sail 'anrhydedd' yn y canllaw ar gyfer y rhestr wirio i helpu ymarferwyr i adnabod yr achosion hyn.

Bydd barn yr ymarferydd yn hanfodol i adnabod risg o drais ar sail 'anrhydedd' gan fod nifer o'r cwestiynau ar y rhestr wirio yn holi am ymddygiad troseddol ehangach a all fod yn absennol yn yr achosion hyn. Mewn achosion o'r fath, ni fydd y sgôr ar y rhestr wirio yn debygol o gyrraedd y trothwy ar gyfer atgyfeirio i gynhadledd MARAC er bod y sefyllfa'n ddifrifol iawn. Er hynny, yn yr achosion hyn fe ddylai barn

broffesiynol y person sy'n cynnal yr asesiad risg (neu'n cynorthwyo'r ymarferydd hwn) arwain at atgyfeirio'r achos i gynhadledd MARAC. Sylwer: **rhaidd peidio byth ag israddio asesiad risg ar sail barn broffesiynol, fel na fydd atgyfeiriad yn cael ei wneud.**

Mae ystyriaethau o ran diogelwch wrth rannu gwybodaeth yn berthnasol iawn mewn achosion o drais ar sail 'anrhydedd'.

Stelcio

Mae'r rhestr wirio wedi'i bwriadu i'w defnyddio mewn achosion o drais dan law partner mewn perthynas bersonol a chan y teulu ehangach, felly nid yw'n briodol mewn achosion lle mae stelcio'n digwydd a lle nad oes perthynas flaenorol.

Mewn achosion lle nodwyd bod stelcio'n rhan o'r cam-drin domestig, dylai hyn gael ei weld yn fater difrifol iawn. Mae'r canllaw ar y rhestr wirio hefyd yn cynnwys cwestiynau ychwanegol i'w hystyried lle gwelwyd bod stelcio'n digwydd a bydd gwasanaethau arbenigol yn defnyddio offer ychwanegol i asesu'r risg o stelcio ar ôl cael yr atgyfeiriad.

Dioddefwyr LGBT+

Wrth dderbyn gwasanaethau, bydd yn rhaid i bobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol ddatgelu eu profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a hefyd eu cyfeiriadedd rhywiol. Mae hefyd yn bosibl y bydd angen i rai pobl drawsryweddol ddatgelu eu statws trawsryweddol os yw hynny'n gysylltiedig â'r cam-drin y maent yn ei brofi. Bydd yn hanfodol creu amgylchedd diogel a hygyrch lle mae dioddefwyr yn teimlo y gallant wneud hyn, a thrwy ddefnyddio termau niwtral o ran rhywedd fel partner / cyn-bartner.

Mae rhai cwestiynau ar y Rhestr Wirio Risg yn ymwneud â phrofiad menywod yn unig, er enghraifft y cwestiwn am feichiogrwydd. Ni ddylid gofyn y cwestiwn hwn i gleientiaid sy'n ddynion a dylid personoleiddio'r broses o lenwi'r rhestr wirio gymaint â phosibl i hwyluso sgwrs yn hytrach na'i defnyddio fel ymarfer holi ac ateb.

Fodd bynnag, dylai'r ymarferydd gofio hefyd ei fod yn tynnu un cwestiwn o'r rhestr wirio (a'r sgôr ar ei gyfer) wrth wneud hyn felly bydd barn broffesiynol yr ymarferydd yn hollbwysig.

Trais teuluol

Gan fod y risg sydd wedi'i hadnabod drwy'r Rhestr Wirio Risg yn golygu'r risg a wynebir gan ddioddefwr sy'n oedolyn, yn rhannol ar sail ei ganfyddiad o'r risg sy'n cael ei hachosi gan ei gamdriniwr, mae'r rhestr wirio yn addas i'w defnyddio mewn achosion o drais gan rywun yn ei lasoed yn erbyn rhiant lle mae'r dioddefwr yn hŷn na 18 oed (hyd yn oed os yw'r person sy'n ymddwyn yn gamdriniol o dan 18 oed). Dylai'r ffurflen gael ei llenwi a'i hasesu yn yr un ffordd ag ar gyfer achos sy'n ymwneud â phartner mewn perthynas bersonol.

Dylid cynnwys y Tîm Diogelu Plant lleol os nodwyd bod plentyn yn ymddwyn yn gamdriniol.

Pobl ifanc a phlant


Bydd y ffurflen hon yn rhoi gwybodaeth werthfawr am y risgiau y mae plant yn byw gyda nhw ond **nid** yw'n asesiad risg ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae presenoldeb plant yn cynyddu'r peryglon ehangach o drais domestig ac mae llysblant mewn perygl neilltuol. Os dangosir bod perygl i blant, dylech wneud atgyfeiriad diogelu i gael asesiad llawn o sefyllfa'r plant.

Mae offer penodol ar gael i ddeall y risg a wynebwr gan bobl ifanc sy'n dioddef cam-drin yn uniongyrchol yn eu perthnasoedd eu hunain neu fel rhan o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Os gwelir bod person ifanc mewn sefyllfa o'r fath, dylai'r risg gael ei gweld yn fater difrifol iawn a dylid rhybuddio'r gwasanaethau arbenigol ar unwaith.²¹

Ystyried a yw'r risg yn galw am rannu gwybodaeth y cleient

Dim ond ar ôl cael caniatâd gan y cleient y dylid rhannu gwybodaeth bersonol a sensitif yn ymwneud â'r cleient, gan ddilyn polisiau ymarfer ar amddiffyn plant a diogelu oedolion. Mewn amgylchiadau eithriadol gellir rhannu gwybodaeth heb ganiatâd y cleient gan mai dim ond un o'r dulliau o rannu data personol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 yw 'caniatâd'. Mae Deddf 1998 yn cydnabod ac yn darparu ar gyfer sefyllfaoedd lle gellir rhannu data'n gyfreithlon lle nad yw'r ymarferydd wedi cael caniatâd penodol gan y cleient.

Lle mae hyn yn digwydd, mae'n ofynnol bod ymarferwyr sy'n defnyddio'r broses "Gofyn a Gweithredu" yn gallu dangos eu bod wedi gwneud penderfyniad amddiffynadwy, sy'n golygu bod y wybodaeth a rannwyd a'r camau a gymerwyd yn gyfreithlon, angenrheidiol a chymesur i warchod diogelwch y cleient ac, mewn llawer achos, ei blant.



Wrth ymarfer

Mae tair senario bosibl yn dilyn datgelu'r profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol:

1. Mae'r broses adnabod risg yn dangos bod risg uchel neu bresennol i oedolyn, plentyn neu rywun arall.
 - Mae'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu

- Nid yw'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu
2. Nid yw'r broses adnabod risg yn dangos bod risg uchel ac mae'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu.
 3. Nid yw'r broses adnabod risg yn dangos bod risg uchel ac nid yw'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu, neu ni ellir cael caniatâd i rannu ei wybodaeth.

Bydd pob un o'r senarios hyn yn galw am ystyried materion gwahanol a rhaid i bob penderfyniad gael ei seilio ar fanylion yr achos dan sylw a deddfwriaeth ar ddiogelu data.

Astudiaeth achos

Roedd claf wedi mynd i glinig i gael triniaeth. Roedd y meddyg wedi cwblhau'r hyfforddiant Grŵp 2 ar gyfer "Gofyn a Gweithredu" yn ddiweddar ac wedi nodi bod y claf yn dangos rhai dangosyddion a oedd yn awgrymu'r posibilrwydd ei bod yn profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Holodd y meddyg y claf mewn ffordd sensitif gan ofyn a oedd wedi dioddef cam-drin domestig. Gwnaeth y claf ddatgeliad ac, o ganlyniad i hynny, gwnaeth y meddyg atgyfeiriad priodol i wasanaethau cymorth arbenigol ar ôl cael caniatâd gan y claf. Cafodd y claf ei hatgyfeirio hefyd i'r gynhadledd MARAC lleol. Rhai wythnosau ar ôl hynny, roedd gan y claf apwyntiad dilynol yn y clinig ac roedd wedi gweld yr un meddyg. Diolchodd y claf i'r meddyg am ofyn y cwestiwn iddi (am gam-drin domestig) ac am atgyfeirio ei hachos. Dywedodd fod y camau hyn wedi newid ei bywyd yn llwyr gan ei bod bellach yn teimlo'n ddiogel yn ei chartref ei hun, am y tro cyntaf ers amser maith.

Cyfaddefodd y meddyg ei bod yn debygol na fyddai wedi dechrau'r drafodaeth am gam-drin domestig cyn derbyn yr hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu". Roedd y meddyg wedi rhannu'r adborth a gafodd gan y claf â'i chydweithwyr gan dynnu sylw at bwysigrwydd yr hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" a'r gwerth o roi'r broses "Gofyn a Gweithredu" ar waith.




Cynnig opsiynau atgyfeirio a gwneud atgyfeiriad

Dylid integreiddio gwasanaethau cyhoeddus ac arbenigol ar lefel leol er mwyn:

- gallu adnabod yn bendant y rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- darparu llwybrau atgyfeirio clir ac effeithlon (o fewn neu'r tu allan i sefydliadau);
- rheoli camdrinwyr a darparu cymorth iddynt.

Dylai'r llwybrau atgyfeirio hyn sicrhau hefyd fod pobl sy'n camddefnyddio alcohol neu gyffuriau neu sydd â phroblemau iechyd meddwl ac sy'n profi effaith trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol hefyd yn cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaethau cyhoeddus ac arbenigol perthnasol.



Wrth ymarfer

Wrth roi'r broses "Gofyn a Gweithredu" ar waith yn lleol, rhaid gwneud hynny ar sail protocol atgyfeirio sy'n egluro i ble y gellir atgyfeirio cleientiaid sy'n datgelu camdriniaeth er mwyn cael cymorth arbenigol. Rhaid seilio'r protocol atgyfeirio hwn ar ganiatâd y dioddefwr oni bai fod y meini prawf ar gyfer amgylchiadau eithriadol lle mae risg uchel a phresennol o niwed wedi cael eu bodloni (fel yr eglurwyd uchod) a rhaid iddo fod yn unol â deddfwriaeth ar ddiogelu data.

Bydd y llwybr atgyfeirio lleol yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan mai hwn fydd yr angen a nodir ar gyfer atgyfeirio. Fodd bynnag, bydd yn arfer da ystyried anghenion cyffredinol y cleient a sicrhau eu bod yn cael eu nodi wrth ei atgyfeirio. Byddai peidio â gwneud hynny'n gallu ei gwneud yn llai tebygol i'r cleient ymwneud â'r asiantaeth y mae wedi'i atgyfeirio iddi ac ymddiried yn y cymorth sydd ar gael. Mae'n bwysig cofio ei bod yn bosibl bod anghenion ychwanegol gan y cleient, hyd yn oed os nad ydynt yn amlwg neu wedi'u datgelu ar y pryd.

Dyletswydd orfodol i adrodd am FGM

Cyflwynwyd dyletswydd orfodol i adrodd am achosion o FGM drwy Ddeddf Troseddu Difrifol 2015. O dan y ddyletswydd, mae'n ofynnol bod ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol a reoleiddir ac athrawon yng Nghymru a Lloegr yn rhoi gwybod i'r heddlu am achosion hysbys o FGM ymysg rhai dan 18 mlwydd oed.

Achosion 'hysbys' yw'r rheini lle mae geneth yn hysbysu'r person bod gweithred FGM – ym mha ffordd bynnag y'i disgrifiwyd – wedi'i chyflawni arni, neu lle mae'r person yn sylwi ar arwyddion corfforol ar eneth sy'n awgrymu bod gweithred FGM wedi'i chyflawni ac nad oes lle gan y person i gredu bod y weithred yn driniaeth, neu'n rhan o driniaeth, o fewn adran 1(2)(a) neu (b) o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) 2003.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi canllawiau gweithdrefnol ar y ddyletswydd hon sy'n egluro'r ddyletswydd orfodol newydd i adrodd am FGM i ymarferwyr perthnasol a'r heddlu.

Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (YAGPRh)

Mae'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a bydd yn ymchwilio i weld a yw cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill nad ydynt yn rhan o'r wladwriaeth yng Nghymru a Lloegr wedi ymgymryd o ddifrif â'u cyfrifoldeb i amddiffyn plant rhag cam-drin rhywiol, ac i wneud argymhellion ystyrlon ar gyfer newid yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd y rheini sy'n datgelu cam-drin rhywiol hanesyddol yn dymuno cyfrannu i'r YAGPRh drwy Brosiect Gwirionedd.

Mae Prosiect Gwirionedd yn caniatáu i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin rhywiol plant rannu eu profiad â'r Ymchwiliad. Bydd y rheini sy'n dymuno cymryd rhan yn gallu dod i sesiwn breifat yn un o swyddfeydd yr YAGPRh ar draws Cymru neu Loegr i rannu eu profiad ag aelod o'r Ymchwiliad. Ni fydd eu disgrifiadau'n cael eu profi, eu herio na'u gwrth-ddweud. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn ddienw a bydd yn cael ei hystyried gan Gadeirydd ac aelodau'r Panel wrth iddynt ddod i'w casgliadau a gwneud eu hargymhellion ar gyfer y dyfodol. Drwy Brosiect Gwirionedd, bydd dioddefwyr a goroeswyr yn cael cyfle i ysgrifennu neges i'w chyhoeddi gydag adroddiadau blynyddol yr Ymchwiliad.

Os bydd cleient am gymryd rhan ym Mhrosiect Gwirionedd, bydd yn bwysig iddo ystyried yn ofalus yr effaith ar ei iechyd a'i lesiant ei hun. Bydd gwasanaeth trais rhywiol arbenigol yn gallu cynnig cyngor.

Mae cyfeiriadur o'r gwasanaethau sydd ar gael ledled Cymru yn <http://livefearfree.gov.wales/?lang=cy>



Ystyried materion diogelu

Mae profi mathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan oedolion sydd ag anghenion ychwanegol am ofal a chymorth sy'n gysylltiedig, er enghraifft, ag anabledd, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu oed yn gallu cynyddu'r peryglon o niwed ac esgeulustod. Hefyd, mae plant sy'n byw ar aelwydydd lle mae cam-drin domestig yn digwydd yn agored i risg arwyddocaol o niwed (Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan). Mae adran 120 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn ehangu'r diffiniad o niwed yn adran 31 o Ddeddf Plant

1989 (gorchmynion gofal a goruchwyliaeth) i gynnwys amhariad a ddioddefir o ganlyniad i weld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin.

Dyletswydd i hysbysu am blentyn sy'n wynebu risg

Mae adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno 'Dyletswydd i hysbysu am blentyn sy'n wynebu risg' ac yn dweud mai "plentyn sy'n wynebu risg" yw plentyn:

- a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed; a
- b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth


Os bydd gan bartner perthnasol³ sail resymol dros gredu bod plentyn, gan gynnwys plentyn sydd heb ei eni, yn wynebu risg, rhaid rhoi'r adroddiad i'r awdurdod lleol cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, os oes pryderon ar y pryd am ddiogelwch plentyn neu am drosedd yn erbyn plentyn, dylai gysylltu â'r gwasanaethau brys yn ddi-oed er mwyn gwarchod y plentyn/plant rhag y risg o gael niwed difrifol.

Mae adran 128 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno dyletswydd i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg.

Mae adran 126 o'r un Ddeddf yn dweud bod "oedolyn sy'n wynebu risg" yn oedolyn:

- a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso;
- b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio); ac
- c) nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso

Mae'n bwysig bod asiantaethau perthnasol a'u staff yn deall eu dyletswydd statudol i hysbysu'r awdurdod lleol lle mae sail resymol dros gredu bod plentyn neu oedolyn mewn perygl.



Wrth ymarfer

Mae'n bwysig bod pob ymarferydd sy'n gyfrifol am ddarparu'r broses "Gofyn a Gweithredu":

- yn deall ei rôl a'i gyfrifoldeb i ddiogelu a hybu lles plant ac oedolion sydd mewn perygl;

³ Fel y mae wedi'i ddiffinio yn adran 162 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)

- yn gyfarwydd â gweithdrefnau a phrotocolau ei sefydliad ar gyfer diogelu a hybu lles plant ac oedolion sydd mewn perygl ac yn eu dilyn, a'i fod yn gwybod â phwy i gysylltu ag ef yn ei sefydliad i fynegi pryderon am hyn;
- yn effro i ddangosyddion o gam-drin ac esgeuluso a/neu ymddygiad sy'n achosi pryder;
- yn deall yr egwyddorion a'r ymarfer yn y canllawiau a roddwyd o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol.
- yn gwybod pryd a sut i atgyfeirio unrhyw bryderon am gam-drin ac esgeuluso i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu;
- yn gwybod na ddylid byth gofyn i blentyn, rhiant, gofalwr, perthynas nac aelod o'r cyhoedd sy'n mynegi pryderon am les plentyn neu oedolyn agored i niwed wrth ymarferydd a / neu wrth weithiwr asiantaeth ei atgyfeirio ei hun i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Rhaid i'r ymarferydd a / neu'r gweithiwr asiantaeth atgyfeirio'r person.

Beth bynnag yw natur eich pryder am blentyn (bod ei ymddygiad ei hun yn achosi pryder neu ei fod yn wynebu risg oddi wrth eraill), mae'n bwysig peidio â'i labelu mewn unrhyw ffordd. Dylai plant gael eu hatgyfeirio'n effeithlon i wasanaethau cymdeithasol i sicrhau eu bod yn gallu derbyn gwasanaeth cyfannol, ystyriol o drawma sy'n cwrdd â'u hanghenion.

Os oes gan unrhyw ymarferydd wybodaeth, pryderon neu amheuan bod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o fod mewn perygl o gael niwed, ei gyfrifoldeb ef yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, sydd â dyletswydd statudol a'r pwerau angenrheidiol i wneud ymholiadau ac i ymyrryd lle bo angen.

Nid mater o ddewis i'r unigolyn yw hyn^{xxii}




Cofnodi

Mae'n bwysig bod pob ymarferydd yn gwneud cofnod cywir o'r cwestiynau y mae'n eu gofyn i'r cleient, ac atebion y cleient, mewn nodiadau neu ffeiliau achos perthnasol. Mae hawl gyffredinol gan gleientiaid i weld eu data personol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 felly mae'n hanfodol bod y cofnodion yn berthnasol a chywir.

Dylai'r cofnodion hyn fod:

- ✓ yn gyfoes; wedi'u hysgrifennu ar adeg gofyn y cwestiwn neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny er mwyn sicrhau bod digwyddiadau wedi'u cofnodi'n gywir;
- ✓ yn gryno ac eto'n ddigon manwl i fod yn ddefnyddiol wrth reoli a symud ymlaen â'r achos;
- ✓ yn eglur fel bod eraill yn y tîm yn gallu eu darllen yn eich absenoldeb neu mewn argyfwng;
- ✓ yn gywir - yn gwahaniaethu rhwng ffaith a barn;
- ✓ yn berthnasol i'ch gwaith achosion.^{xxiii}

Mae'n bwysig iawn bod penderfyniadau a wneir ar ôl datgeliad gan gleient yn cael eu cofnodi, yn bennaf lle credir bod angen gwneud penderfyniad i rannu ei wybodaeth heb ei ganiatâd er mwyn ei wneud yn fwy diogel.



Wrth ymarfer

Fel yr eglurwyd yn yr adran uchod, mae tri ymateb posibl i gwestiwn am brofi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

- 1. Mae'r broses adnabod risg yn dangos bod risg uchel i oedolyn, plentyn neu rywun arall.**

Mae'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu

Nid yw'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu

Lle dangoswyd bod y cleient yn wynebu risg uchel, mae'n debygol y bydd angen ymateb amlasiantaethol i wella ei ddiogelwch ac i amddiffyn unrhyw blant. Er mwyn cydgysylltu'r ymateb hwn, mae'n debygol y bydd angen i'r ymarferydd rannu wybodaeth y cleient â phartneriaid perthnasol i gychwyn ymateb.

Os yw plant mewn perygl o gael niwed, bydd dewis yr unigolyn yn dod yn ail i ddiogelu'r plentyn. Os oes gan ymarferydd wybodaeth, pryderon neu amheuan bod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o fod mewn perygl o gael niwed, eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau bod y pryderon yn cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Mae'n arfer da cael caniatâd y rhiant / rhieni i atgyfeirio, ond dylid barnu a allai hyn gynyddu'r risg i'r plentyn. Bydd gweithwyr proffesiynol penodol neu ddynodedig ar gyfer diogelu plant neu Dimau Dyletswydd Argyfwng yr Awdurdod Lleol yn gallu darparu cyngor ychwanegol.

Fodd bynnag, os nad yw plant yn gysylltiedig, neu os credir nad ydynt mewn perygl, bydd y penderfyniad yn fwy cymhleth. Mewn achosion o'r fath, nid yw rhannu gwybodaeth yn orfodol ond yn rhywbeth a 'ganiateir'.^{xxiv} Wrth rannu gwybodaeth, bydd yn rhaid cydymffurfio bob amser â deddfwriaeth ar ddiogelu data ac yn yr achosion hyn bydd angen i'r ymarferydd ystyried yn ofalus pa wybodaeth y gellir ei rhannu'n gyfreithlon, gyda phwy ac i ba ddiben. Wrth ymarfer, cael caniatâd gan y cleient yw'r sail fwyaf syml ac effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio:

Nad oes cyfiawnhad moesegol dros ddal gwybodaeth y gwyddom y gallai atal niwed difrifol i eraill ac eto penderfynu'n ymwybodol na fyddwn yn ei rhannu.^{xxv}

Os bydd ymarferydd yn dewis peidio â rhannu gwybodaeth ar sail datgeliad, dylai gymryd y camau canlynol:

- cofnodi'r penderfyniad, gan gynnwys y rhesymau drosto
- ystyried ffyrdd o leihau'r risg i'r cleient ac i'w blant
- ystyried ffyrdd rhagweithiol o helpu'r cleient i gael cymorth gan asiantaethau eraill

Os bydd ymarferydd yn dewis rhannu gwybodaeth heb ganiatâd y cleient, ar sail datgeliad, dylai gymryd y camau canlynol:

- gofyn am gyngor gan reolwr
- cofnodi ei benderfyniad a'r rhesymau drosto
- gwneud penderfyniadau / ymholiadau yng nghyswllt pa wybodaeth i'w datgelu, sut ac i bwy
- trafod â'r cleient, lle bo'n briodol a diogel
- nodi a hysbyswyd y cleient a phryd, ac os na chafodd ei hysbysu, y rhesymau am hynny.

2. Nid yw'r broses adnabod risg yn dangos bod risg uchel ac mae'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu.

Lle mae'r cleient yn rhoi caniatâd penodol a gwybodus i rannu ei wybodaeth, mae'n bwysig cadw cofnod o hyn ar ffeil gan nodi pa wybodaeth sydd i'w rhannu, â phwy ac i ba bwrpas.

3. Nid yw'r broses adnabod risg yn dangos bod risg uchel ac nid yw'r cleient yn caniatáu i'w wybodaeth gael ei rhannu, neu ni ellir cael caniatâd i rannu ei wybodaeth.

Lle nad oes pwrpas clir a chyfreithlon i rannu gwybodaeth y cleient, ni ddylid rhannu'r wybodaeth hon. Yn yr achosion hyn dylai'r ymarferydd gymryd y camau canlynol:

- cofnodi'r asesiad risg a'r camau a gymerwyd ar ffeil;
- sicrhau'r cleient y bydd gwasanaethau'n parhau i fod ar gael iddo;
- marcio / fflagio ffeil y cleient i sicrhau y bydd ymateb sensitif a chryfach yn cael ei ddarparu os bydd y cleient yn dychwelyd at y gwasanaeth am ryw reswm.

Cymhwyso “Gofyn a Gweithredu” at rai sydd ag anghenion amrywiol ychwanegol

Mae’n bwysig bod proses “Gofyn a Gweithredu” y sefydliad yn ystyriol o natur amrywiol y boblogaeth y mae’n ei gwasanaethu ac o’r ymchwil hysbys i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylid cydnabod yr amrywiaeth hon ym mhob maes ymarfer ac yn yr ymateb i bob cleient.

Bydd yr hyfforddiant ar y broses “Gofyn a Gweithredu” yn cynnwys ystyriaeth i nifer o wahanol grwpiau cleientiaid sy’n adlewyrchu poblogaeth Cymru ac yn tynnu sylw at unrhyw anghenion arbenigol a’r ymatebion sydd angen eu rhoi iddynt.

Gall partneriaeth rhwng gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau cyhoeddus eraill fod yn ffordd effeithiol o ymateb i anghenion cymunedau lleiafrifol.

Ni ddylai’r ystyriaeth i anghenion amrywiol y cleient fod yn rhywbeth atodol i’r gwasanaeth a ddarperir, ac ni ddylid ffurfio rhagdybiaethau ychwaith ynghylch profiad y cleient. Rhaid trin pob un fel unigolyn. Fodd bynnag, er mwyn bod yn glir ynghylch pa ffactorau y bydd angen i ymarferwyr eu hystyried fel arfer, mae’r bennod hon yn crynhoi rhai o’r rhwystrau i ddatgelu profiad o gam-drin. Nid yw’n trafod pob un o’r rhwystrau posibl, ac nid yw’n awgrymu ychwaith y bydd pob cleient yn wynebu’r rhwystrau hyn. Y gobaith yw y bydd sylwi arnynt yn ysgogi’r ymarferydd i gychwyn ymholiadau.

Rhai sydd mewn perygl o gael eu cam-drin ar sail “anrhydedd”^{xxvi}

Mae’r termau “anrhydedd” neu “izzat” yn ymwneud â materion o anrhydedd ac enw da teuluol. Gellid credu bod rhywun (menyw yn y rhan fwyaf o achosion) yn codi cywilydd ar ei deulu drwy ymddygiad y mae’r teulu neu’r gymuned yn ei weld yn niweidiol i’w henw da.

Mae aros yn driw i’ch diwylliant a chadw enw da’r teulu mewn cymdeithas yn elfen ganolog mewn “anrhydedd” neu “izzat”. Mae cynnal anrhydedd y teulu wedi’i gysylltu â chywilydd personol. Mewn rhai achosion, bydd rhai sydd wedi’u magu mewn diwylliannau lle rhoddir blaenoriaeth i “anrhydedd” yn teimlo eu bod wedi’u dal yn gaeth mewn perthnasoedd anodd neu gamdriniol. Hefyd, mae’r ofn o godi cywilydd a cholli “izzat” yn cael eu gweld yn rhai o’r prif resymau pam nad yw rhai sy’n teimlo cyfrifoldeb i gynnal “anrhydedd” y teulu yn gofyn am help.

Rhwysr ychwanegol i rai mewn perygl o gael eu cam-drin ar sail “anrhydedd” yw ofni na fydd ymarferwyr yn cadw eu cyfrinachedd neu na fydd cofnodion yn cael eu cadw’n ddigon diogel i gadw eu cyfrinachedd.^{xxvii}

Unigolion Du, Asiaidd, Lleiafrifol Ethnig a Ffoaduriaid^{xxviii}

Mae nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol y mae pobl o gymunedau Du, Lleiafrifol Ethnig a Ffoaduriaid (BAMER) yn y boblogaeth gyffredinol yn rhoi gwybod amdanynt yn llai na'r nifer gwirioneddol. Dyma rai o'r rhwystrau ychwanegol i adrodd y gallant eu hwynebu:

- rhwystrau iaith - cyfieithu;
- statws mewnfudo a dim arian ar gael iddynt o goffrau cyhoeddus;
- hiliaeth (y canfyddiad neu'r ofn o gael ymateb hiliol neu'r profiad o gael ymateb hiliol gan ddarparwr gwasanaeth);
- rhagdybiaethau gan ymarferwyr sydd wedi'u seilio ar ymddangosiad neu liw croen;
- credoau ac arferion diwylliannol; ofn cael eu gwrthod gan eu cymuned; a dim ffydd mewn awdurdodau;
- trais yn y wlad enedigol - gall pobl sy'n ceisio lloches neu sy'n ffoaduriaid fod wedi cael eu cam-drin neu brofi trais cyn cyrraedd y DU.

Yn achos y rheini sy'n ceisio lloches, gall y cyfweliad lloches neu'r prif gyfweliad fod yn brofiad brawychus i rai sydd wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n berthnasol i'w hawliad lloches, a bydd rhai'n teimlo na allant ddatgelu gwybodaeth, yn enwedig am drais rhywiol, oherwydd tabŵ diwylliannol a diffyg paratoi a chymorth.

Gall pobl hŷn o gymunedau lleiafrifol ethnig fod yn llai tebygol na phobl iau o siarad neu ddeall Saesneg, a/neu fod wedi'u cadw rhag gwybod am ffynonellau cymorth a chefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Mae'n bosibl y bydd rhai pobl o gymunedau BAMER yn ei gweld yn amhosibl ystyried ysgaru neu wahanu am eu bod yn pryderu am gadw "anrhydedd" y teulu.

Dioddefwyr sy'n ddynion

Gall dynion sydd wedi dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd fod yn gyndyn o ddatgelu eu profiad am fod arnynt ofn cael eu gwawdio, na fydd pobl yn eu credu neu y bydd asiantaethau'n eu trin yn annheg. Efallai fod ganddynt syniadau cyfeiliornus am wrywod sy'n codi teimladau ychwanegol o gywilydd ynghylch profi cam-drin domestig, trais a thrais rhywiol.

Mae llawer o'r delweddau a'r wybodaeth gyhoeddus am gam-drin domestig, trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd yn ei gyfleu fel problem mewn perthnasoedd heterorywiol a'r fenyw fel y dioddefwr. Gall dynion sy'n cael eu cam-drin gan ddynion neu fenywod fod yn llai tebygol o ganfod eu bod yn cael eu cam-drin os nad yw'r delweddau a ddefnyddir i ddisgrifio'r profiad yn eu cynnwys nhw.

Astudiaeth achos

Roedd dyn a oedd yn denant mewn tai cymdeithasol sy'n eiddo i Awdurdod Lleol wedi anfon neges testun at Weithiwr Cymorth Gwasanaethau Cymunedol yn mynegi teimladau hunanladdol. Ar ôl anfon y neges testun hon, aeth i gyfarfod yn swyddfa

tai cymdeithasol yr awdurdod lleol i drafod ei sefyllfa ymhellach. Yn y cyfarfod hwn, roedd y Rheolwr Tai Cymdogaeth wedi gwneud ymholiadau pellach ac roedd y tenant wedi datgelu ei fod yn cael ei gam-drin yn ariannol ac emosiynol gan bartner a oedd wedi ymddieithrio.

Roedd y rheolwr wedi tawelu meddwl y tenant ac wedi awgrymu y byddai'n fuddiol iddo gael sgwrs bellach ag arbenigwr a fyddai hefyd yn gallu cynnal asesiad risg gydag ef. Cafodd y tenant ei atgyfeirio i wasanaethau arbenigol ac roedd hefyd wedi cael trafodaeth â'r tîm tai am y posibilrwydd o gael ei atgyfeirio i loches arbenigol i ddynion.

Roedd y Gweithiwr Cymorth Gwasanaethau Cymunedol wedi trafod manylion yr achos wedyn â'i 'hyrwyddwr' Grŵp 3 i sicrhau ei fod wedi ystyried holl anghenion y cleient.

O ganlyniad i'r broses "Gofyn a Gweithredu" roedd asesiad risg wedi'i gynnal a gwnaethpwyd atgyfeiriad i loches i ddynion.

Roedd staff wedi gweithio gyda'r heddlu ar ran y tenant ac wedi trefnu cymorth i gasglu ei eiddo. Trosglwyddwyd manylion y tenant i sefydliad digartrefedd yn y trydydd sector drwy adran digartrefedd yr awdurdod lleol a threfnwyd iddo aros mewn llety gwely a brecwast argyfwng tra oedd lle'n cael ei baratoi iddo yn y lloches.

Pobl ifanc mewn perygl o briodi dan orfod

Mae'r risg o briodi dan orfod yn cynyddu wrth gyrraedd 16 oed gan fod addysg ffurfiol yn dod i ben ac am mai hwn yw'r oedran cydsynio yn y DU. Nid hwn yw'r unig oed lle mae risg yn codi a dylai ymarferwyr fod yn wylidwrs ynghylch pobl ifanc o bob oed.

Mewn achosion lle mae'r cysyniad o "anrhydedd" yn y fantol, mae'n bosibl iawn bod nifer o gamdrinwyr yn gysylltiedig. Gall y cleient ofni nifer o bobl wahanol, gan gynnwys perthnasau sy'n ddynion neu'n fenywod, ac eraill yn y gymuned ehangach neu ffigyrau awdurdod, a gall fod yn anodd iawn iddo ymddiried yn neb. O ganlyniad i hyn, arwahanwyd cymdeithasol fydd un o'r problemau mwyaf i bobl ifanc sy'n wynebu risg o briodi dan orfod.

Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol

Mae llawer o'r delweddau a'r wybodaeth gyhoeddus am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cyfleu'r broblem fel un mewn perthnasoedd heterorywiol; trais corfforol gan y dyn heterorywiol 'cryfach', mwy yn erbyn y fenyw heterorywiol lai a 'gwannach'. Gall pobl LGB fod yn llai tebygol o labelu eu hunain yn unigolion sy'n cael eu cam-drin os na allant uniaethu â'r nodweddion yn y "stori gyhoeddus" hon.^{xxix}

Wrth gwrs, gall pobl drawsryweddol fod mewn perthynas heterorywiol yn yr un ffordd ag y gallant fod mewn perthynas â rhywun o'r un rhyw, felly mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn gwahaniaethu rhwng rhywioldeb a hunaniaeth rywedd. Er

enghraifft, mae'n bosibl iawn y bydd menyw drawsryweddol yn uniaethu â'r 'stori gyhoeddus' os yw'n cael ei cham-drin gan bartner sy'n ddyn.

Os oes rhagdybiaeth nad yw menywod yn dreisgar, neu fod trais rhwng dwy fenyw neu ddau ddyn yn llai difrifol na thrais mewn perthynas heterorywiol neu'n debygol o fod yn gam-drin o'r ddwy ochr, gall hynny arwain at gamddeall ymhlith ymarferwyr neu at gymryd y risg a brofir gan ddioddefwyr LGBT yn ysgafn.

Mae ymchwil i brofiad pobl LGBT o gam-drin yn disgrifio "bwllch ymddiriedaeth" rhwng rhai mewn perthynas o'r un rhyw a'r gwasanaethau cyhoeddus. Fel arfer mae hyn yn seiliedig ar ofn bod yr asiantaethau hyn yn homoffobig neu'n drawsffobig, na fyddant yn cydymdeimlo neu na fyddant yn deall profiadau'r cleient.^{xxx} Yn achos rhai cleientiaid, bydd hyn yn codi o brofiad blaenorol o wynebu homoffobia neu drawsffobia gwirioneddol neu dybiedig oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau. Yn ogystal â hyn, gall rhai gwasanaethau ymddangos yn heterorywiaethol (h.y. yn tybio bod pob cleient yn heterorywiol) gan allgáu pobl LGBT yn ddarwybod o ganlyniad.

Er mwyn datgelu profiad o gam-drin, mae'n bosibl y bydd person LGBT yn 'dod allan' i wasanaethau. Gall hyn arwain hefyd at bryder am gyfrinachedd os nad yw'r cleient wedi 'dod allan' ym mhob rhan o'i fywyd (e.e. i'w deulu neu gydweithwyr). Efallai nad yw'n barod i rannu'r wybodaeth hon eto, neu gallai ofni'r canlyniadau pe byddai'r bobl 'anghywir' yn dod i wybod am ei rywioldeb neu hunaniaeth rywedd.^{xxxi}

Er bod 80% o'r rhai a ymatebodd i Arolwg yr Alban o Brofiadau Pobl Drawsryweddol o Gam-drin Domestig wedi nodi eu bod wedi dioddef rhyw fath o ymddygiad camdriniol gan bartner neu gyn-bartner, dim ond 60% o'r ymatebwyr oedd wedi adnabod yr ymddygiad fel cam-drin domestig.^{xxxii}

Yn aml, bydd pobl drawsryweddol yn dweud bod eu hunaniaeth rywedd yn cael ei defnyddio'n rhan o'u profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Y math o gamdriniaeth a brofir amlaf gan bobl drawsryweddol yw cam-drin emosiynol trawsffobig, ac mae 73% o'r ymatebwyr wedi profi o leiaf un math o ymddygiad camdriniol emosiynol trawsffobig gan bartner neu gyn-bartner.^{xxxiii}

Pobl hŷn^{xxxiv}

Bydd yn bwysig i ymarferwyr fod yn effro iawn i'r posibilrwydd o gam-drin pobl hŷn gan aelodau o'r teulu ehangach.

Gall fod yn anodd iawn i bobl hŷn ddatgelu cam-drin am eu bod yn coleddu'r syniad traddodiadol y dylai pobl guddio eu problemau, yn enwedig os ydynt yn ymwneud ag aelodau o'r teulu.^{xxxv} Bydd rhai pobl hŷn yn cael eu cam-drin gan eu plant, er enghraifft. Mewn achosion o'r fath, gall fod yn anoddach codi llais a gofyn am help.

Yn y gorffennol, roedd y dewisiadau a'r opsiynau oedd ar gael i rai oedd yn profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn brin o'u cymharu â'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael heddiw. Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a disgwyliadau pobl hŷn o ran y cymorth sydd ar gael iddynt yn gyfyngedig ac y byddant yn llai tebygol o ofyn am gymorth o ganlyniad.

Er hynny, mae pobl hŷn yn fwy tebygol o ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus ac o ddibynnu arnynt am gymorth. Gan eu bod yn dibynnu ar y gwasanaethau hyn, ac ar y gofawyr sy'n eu darparu, gallant wynebu mwy o risg o gael eu cam-drin a bod yn llai tebygol o ddatgelu unrhyw fath o gam-drin.

Mae “stori gyhoeddus” o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol hefyd yn berthnasol i bobl hŷn; yn aml bydd y delweddau a welir yn y cyfryngau'n dangos pobl iau a gallent roi'r argraff nad oes disgwyl i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol effeithio ar bobl hŷn.

Pobl ifanc

Menywod iau (16-24 oed neu'n iau) sydd fwyaf tebygol o brofi cam-drin corfforol gan bartner mewn perthynas bersonol.^{xxxvi}

Bydd rhywun yn fwyaf tebygol o brofi cam-drin domestig yn ei berthynas gyntaf a bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn digwydd yn yr arddegau. Yn ogystal â hyn, mae tuedd gryf i gam-drin, trais ac ymddygiad gormesol gael eu normaleiddio ymhlith pobl ifanc. Efallai na fydd cleient ifanc yn cydnabod ei fod yn cael ei gam-drin a gallai gymryd y niwed a achosir iddo'n ysgafn.

Mae'n bosibl hefyd y bydd gorgyffwrdd rhwng ymwneud â gangiau a chamfanteisio rhywiol ac mae'r rhain yn effeithio'n fwy ar bobl ifanc ar gyfartaledd. Gallai'r profiadau hyn gwmpasu mwy o gamdrinwyr posibl a bod yn gysylltiedig â throseddau cyfundrefnol. Oherwydd hyn, gallai pobl ifanc fod ag ofn codi llais am eu bod yn wynebu bygythiadau o sawl cyfeiriad.

Mae pobl ifanc yn fwy tebygol nag eraill o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yn rhoi mwy o gyfle i gamdrinwyr reoli a thracio dioddefwyr ar-lein. Oherwydd y defnydd o dechnolegau newydd gan bobl ifanc, mae dioddefwyr ifanc yn fwy agored i gael eu rheoli, e.e. drwy fygwth dosbarthu lluniau a fydd yn codi cywilydd arnynt. Gallai hyn fod yn rhwystr pellach i ddatgelu.

Pobl anabl

Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod yn agored i niwed corfforol na phobl nad ydynt yn anabl ac mae'n bosibl y bydd angen mwy o gymorth arnynt i'w tynnu eu hunain allan o sefyllfa gamdriniol.

Mae menywod anabl yn ddwywaith yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig na menywod nad ydynt yn anabl.^{xxxvii} Maent hefyd yn debygol o gael eu cam-drin am gyfnodau hirach ac o ddioddef anafiadau mwy difrifol o ganlyniad i'r trais.

Mae bygwth atal gofal neu dynnu dyfeisiau symudedd neu synhwyraidd oddi ar bobl anabl, a hwythau'n dibynnu arnynt am eu hannibyniaeth, yn cyfyngu ar eu gallu i ddatgelu cam-drin, gan waethygu'r arwahanrwydd cymdeithasol y mae rhai pobl anabl yn ei wynebu.

Mae'n bwysig nodi bod nifer o fathau o anabledd yn anweladwy.

Pobl ag anableddau dysgu

Ychydig iawn o ymchwil sydd ar gael yng nghyswllt y grŵp cleientiaid hwn. Fodd bynnag, mae'r astudiaethau bach a gwblhawyd hyd yn hyn yn disgrifio profiad menywod (yn benodol) o gam-drin domestig, gan gynnwys nifer o wahanol fathau o gam-drin, a llawer ohono'n ddifrifol. Maent yn disgrifio math unigryw o ymddygiad a ddefnyddir gan gamdrinwyr yn erbyn y grŵp cleientiaid hwn i'w tanseilio neu feithrin perthynas amhriodol wrth i'r cam-drin waethygu.

Mae'n bosibl y bydd rhai ag anableddau dysgu yn wynebu ofnau a rhwystrau ychwanegol i ddatgelu sy'n gysylltiedig â'r ofn o gael eu rhoi mewn sefydliad neu golli eu plant.^{xxxviii}

Gofyn a Gweithredu – cynnwys camdrinwyr

Pwrpas “Gofyn a Gweithredu” yw canfod y profiad o gam-drin, felly mae’n canolbwyntio’n bennaf ar ddioddefwyr. Fodd bynnag, bydd nifer mawr o gamdrinwyr hefyd wedi profi cam-drin ac, felly, byddant yn datgelu hyn o ganlyniad i’r broses “Gofyn a Gweithredu”, neu’n defnyddio unrhyw gwestiynau perthnasol fel cyfleoedd i godi pryderon am eu hymddygiad eu hunain. Er mwyn eich paratoi ar gyfer digwyddiadau o’r fath, mae’r adran hon o’r canllawiau’n amlinellu rhai o’r ystyriaethau ymarferol i’w cadw mewn cof. Mae hefyd yn bwysig nodi y bydd eich hyrwyddwyr “Gofyn a Gweithredu” Grŵp 3 wedi derbyn hyfforddiant penodol ar y materion hyn ac y dylid gofyn am eu cymorth.

Mae gwaith uniongyrchol gyda chyflawnwyr mathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faes ymarfer arbenigol, sy’n cael ei seilio ar asesiad risg ac yn cael ei ddarparu orau drwy ddull teilwredig wedi’i bersonoli. Fodd bynnag, rydych yn debygol o ddod ar draws camdrinwyr yn eich rolau pob dydd ac mae’n bwysig eich bod yn gallu ymarfer mewn ffordd sydd mor ddiogel â phosibl ac yn gallu cynnig cyfleoedd i gamdrinwyr sydd am ddelio â’u hymddygiad.

Mae corff sylweddol o waith ymchwil ar gael am waith gyda chamdrinwyr mewn nifer o feysydd troseddu – yn cynnwys troseddu rhywiol. Bydd y canllawiau hyn yn canolbwyntio ar gam-drin domestig (gan roi rhywfaint o sylw i briodi dan orfod, trais ar sail “anrhydedd” a stelcio ac aflonyddu) am mai hon yw’r broblem rydych yn fwyaf tebygol o ddod ar ei thraws.

Gweithio gyda chamdrinwyr

Mae’n cael ei gydnabod fwyfwy, wrth ddelio â cham-drin domestig, fod rhaid cynnwys camdrinwyr yn ogystal â dioddefwyr a chynnig gwasanaethau iddynt i ymdrin yn effeithiol â symptomau, effeithiau ac achosion y broblem. Mae hefyd yn glir bod awdurdodau perthnasol yn gallu chwarae rhan hollbwysig mewn perthynas â chynnwys cyflawnwyr cam-drin domestig, asesu risg a gwaith lliniaru ac atgyfeirio.

Mae rôl yr awdurdod perthnasol yn hanfodol oherwydd:

Mae’r gwasanaethau hyn eisoes yn gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig.

- Nid yw’r rhan fwyaf o gyflawnwyr cam-drin domestig yn dod i gysylltiad â’r System Cyfiawnder Troseddol. Hyd yn oed lle maent wedi’u cael yn euog a’u carcharu, maent yn debygol o ddychwelyd rywbyrd i fyw yn eu cymuned. Yn aml, byddant yn byw gyda’u teulu a byddant yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

Mae cam-drin domestig yn fater sy’n ymwneud ag amddiffyn plant

- Mae’r rhan fwyaf o gamdrinwyr yn aros mewn cysylltiad â’u plant, hyd yn oed os yw’r berthynas rhwng y rhieni wedi gorffen. Mae cysylltiad rhwng cam-drin domestig a cham-drin plant yn uniongyrchol ac mae’n cael ei weld yn risg arwyddocaol wrth ystyried trefniadau cyswllt.^{xxxix}

Bydd dioddefwyr yn aml yn gofyn am gymorth i gyflawnwyr cam-drin domestig

- Er bod gormod yn cael ei ddisgwyl weithiau gan raglenni i gamdrinwyr, lle mae cwpl yn bwriadu aros gyda'i gilydd, mae'n aml yn rhywbeth y bydd y rheini sydd wedi cael eu cam-drin yn dymuno rhoi cynnig arno cyn ystyried unrhyw gamau eraill. Yn aml, bydd cyflawnwyr cam-drin domestig yn addo newid a bydd eu partneriaid yn credu, neu'n dymuno credu, fod hyn yn bosibl.

Mae hefyd yn bwysig nodi'r posibilrwydd mai aros gyda chyflawnwr cam-drin domestig fydd y penderfyniad mwyaf diogel gan y rheini sy'n cael eu cam-drin. Mewn achosion eraill, gallai ymddangos nad oes dewis arall gan y rheini sydd wedi cael eu cam-drin. Bydd nifer mawr o ddioddefwyr yn aros gyda'r camdriniwr oherwydd ofn, y gallu i gael mynediad at dai, dibyniaeth ariannol, statws cymdeithasol ac i gynnal perthynas er mwyn llesiant economaidd neu lesiant canfyddedig eu plant.

Bydd y rhan fwyaf o gamdrinwyr yn symud ymlaen i berthnasoddd eraill, gan greu rhagor o ddioddefwyr o bosibl

- Cyflawnwr y cam-drin domestig yw ffynhonnell ac achos y cam-drin bob amser. Ni fydd yn newid ei ymddygiad am ei fod mewn perthynas newydd ac mae'n debygol o barhau â'i ymddygiad camdriniol, gan effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol y bobl y mae'n eu cam-drin a'u teuluoedd ac felly achosi effeithiau pellach ar y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Felly mae'n bwysig bod awdurdodau perthnasol yn ymwybodol o'r rôl sydd ganddynt mewn perthynas â gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig. Er bod gwaith dwys a manwl gyda chyflawnwyr cam-drin domestig yn faes ymarfer arbenigol, mae pethau bach y gall awdurdodau perthnasol eu gwneud wrth gyflawni eu rolau eu hunain.

Materion i'w hystyried wrth ymarfer gyda chyflawnwyr cam-drin domestig

Mae nifer o awdurdodau perthnasol yn gweithio gyda theuluoedd. Lle mae cam-drin domestig wedi'i ddatgelu neu ei amau, rhaid parhau i ganolbwyntio ar y teulu. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod ymarferwyr sy'n gweithio gyda theuluoedd lle mae cam-drin domestig yn ystyriaeth yn ymwybodol o'r risgiau a'r materion ymarfer sy'n gysylltiedig â gwaith o'r fath a'u bod yn sicrhau bod gweithredu, craffu ac ymarfer ar waith i liniaru risg o'r fath.

Yn yr adran sy'n dilyn, rydym yn amlinellu rhai o'r prif ystyriaethau o ran ymarfer sy'n berthnasol wrth weithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig neu gyda theuluoedd lle rydych yn gwybod neu'n amau bod cam-drin domestig yn digwydd.

Capasiti a gweithio ar wahân

Lle mae awdurdod perthnasol yn gweithio gyda'r teulu cyfan, mae'n bwysig yng nghyswllt cam-drin domestig ei fod yn gweithio gyda dioddefwyr a chamdrinwyr ar wahân.

Mewn achosion o'r fath, bydd angen rhoi digon o flaenoriaeth yn llwythi achosion yr ymarferwyr i waith gyda'r rheini sydd wedi'u cam-drin a chyda'r camdrinwyr er mwyn lleihau niwed. Mewn llawer achos, bydd hyn yn galw am benodi ail ymarferydd i weithio gyda'r teulu er mwyn sicrhau bod anghenion y ddau oedolyn yn cael eu cydnabod a'r risg o gydgyllwynio'n cael ei lliniaru. Bydd angen i'r ddau ymarferydd gydgysylltu'n agos er mwyn cadw gwrthrychedd yr ymarferwyr a diogelu unrhyw blant neu oedolion agored i niwed.

Yn ystod unrhyw ryngweithio lle mae'r ddau bartner yn bresennol, bydd angen i staff fod yn ofalus iawn i osgoi'r posibilrwydd o gynyddu'r risg i'r dioddefwr, o ddatgelu gwybodaeth sydd wedi'i rhannu'n gyfrinachol neu o ragdybio bod y partneriaid yn gyfartal o ran penderfynu a phennu rheolweithiau yn y teulu.

Lle mae'r rheini sydd wedi'u cam-drin hefyd yn defnyddio gwasanaethau'r sefydliad a bod y berthynas yn parhau, dylai unrhyw sesiynau cyswllt a drefnir gael eu cynnal ar wahân.

Lle mae'r rheini sydd wedi'u cam-drin hefyd yn defnyddio gwasanaethau'r sefydliad a bod y berthynas wedi dod i ben, dylai apwyntiadau gael eu trefnu mewn ffordd sy'n lleihau'r perygl iddyn nhw a'r camdriniwr ddod i gysylltiad â'i gilydd.

Prosesau diogelu a cham-drin domestig

Mae ystyriaethau'n debygol o godi o ran capasiti a gweithio ar wahân wrth weithredu mewn perthynas â chynnal cyfarfodydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant neu gyfarfodydd ar strategaethau diogelu (ar gyfer oedolion a phlant).

Dylai Cadeirydd y cyfarfod asesu'r risgiau'n ofalus, drwy ymgynghori ag ymarferwyr perthnasol, mewn perthynas â chymryd rhan gan y camdriniwr.

Wrth asesu'r risgiau, dylid ystyried materion diogelwch yn y cyfarfod ei hun a hefyd unrhyw drefniadau teithio cyn ac ar ôl y cyfarfod, yn ogystal â manylion a chyfeiriadau yng nghofnodion y cyfarfod (yn cynnwys cyfeiriadau ysgolion) a allai achosi risg pe byddent yn cael eu datgelu.

Dylid bod yr un mor ofalus ynghylch datgelu gwybodaeth (fel y nodwyd yn gynharach yn y canllawiau hyn) mewn perthynas â chofnodion yr holl gyfarfodydd, h.y. cyfarfodydd y Grŵp Craidd, cyfarfodydd Cynllunio etc.

Bydd angen hysbysu rheolwyr mewn awdurdodau perthnasol sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ynghylch gwybodaeth sy'n berthnasol i'w rôl. Dylent fod yn gyfrifol am ledaenu'r wybodaeth hon ymysg staff rheng flaen ac am oruchwylio unrhyw weithgareddau rheoli risg sydd eu hangen.

Hyd yn oed os yw ymarferwyr yn gweithio gyda phlant yn unig a bod eu cysylltiad ag oedolion yn gyfyngedig, dylent gael eu hysbysu lle mae risg y bydd y camdriniwr yn tynnu plentyn penodol allan o'r gwasanaeth (er enghraifft, ysgol) yn groes i Gytundeb Amddiffyn Plant neu gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Chyfiawnder Troseddol.

Diogelwch ymarferwyr

Mae cyflawnwyr cam-drin domestig yn gallu achosi risg i'r rheini sydd y tu allan i'w teulu a gall hyn gynnwys yr ymarferwyr sy'n gweithio gyda nhw. Rhaid asesu unrhyw risgiau posibl i ymarferwyr sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i deulu lle mae cam-drin domestig yn broblem. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cymorth a gynigir i ddioddefwr neu blentyn.

Ymweld â chartrefi

Dylid cynnal asesiad risg trwyadl cyn ymweld â chartref lle mae cam-drin domestig yn broblem.

Lle nad yw asesiad risg yn rhoi unrhyw le i bryderu, ni ddylai ymweliadau â chartrefi gael eu cynnal gan ymarferydd ar ei ben ei hun fel arfer ac, os oes angen, dylid cael cymorth gan yr heddlu neu bartneriaid eraill. Dylai ymarferwyr siarad â'u rheolwr a chyfeirio at ganllawiau eu hasiantaeth ar ddiogelwch staff.

Cydgynllwynio

Wrth ryngweithio â chyflawnwyr cam-drin domestig, dylid gwneud hynny mewn ffordd empathig, anfeirniadol gan gydnabod bod camdrinwyr yn gallu newid eu hymddygiad.

Dylid cofio hefyd, fodd bynnag, fod cyflawnwyr cam-drin domestig yn gallu bod yn ystrywgar iawn mewn llawer achos. Wrth weithio gyda chamdrinwyr, bydd angen i ymarferwyr fod yn ofalus iawn i osgoi defnyddio iaith sy'n cydgynllwynio â'r cam-drin neu'n derbyn fersiwn y camdriniwr o'r hyn sydd wedi digwydd heb gael eglurhad o'r manylion gan asiantaethau sy'n bartneriaid.

Bydd angen i ymarferwyr allu gwahaniaethu'n glir rhwng y cydweithio a'r ymgysylltu gan y camdriniwr â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu a'i allu i achosi niwed. Mae cyflawnwyr cam-drin domestig yn aml yn unigolion galluog a pharod i gydweithredu na fyddent yn peri pryder i asiantaeth fel arfer.

Mae hefyd yn bwysig bod ymarferwyr yn ymwybodol o gymhlethdodau dioddefwyr wrth weithio gyda nhw. Nid yw bob amser yn hawdd ymgysylltu â'r rheini sydd wedi profi cam-drin domestig ac nid ydynt yn gydsyniol a goddefol ym mhob achos. Ni ddylai ymarferwyr ddod i'r casgliad bod y risg wedi lleihau ar sail ymddygiad o'r fath. Yn wir, lle mae'r ddau bartner yn tueddu at drais, bydd mwy o risg i'r ddau oedolyn ac i blant.

Rhannu gwybodaeth

Mae'n bosibl, wrth weithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig, y bydd gwybodaeth yn cael ei datgelu sy'n dangos bod risg i oedolyn arall neu i blentyn. Mewn achosion o'r fath, bydd yn bwysig bod y wybodaeth hon yn cael ei thrin a'i rhannu mewn ffordd briodol a chyfreithlon. Dylai staff gyfeirio at brotocol eu sefydliad ar rannu gwybodaeth a'u gweithdrefnau diogelu yn yr achosion hynny.

Ymdrin â honiadau deuol a gwrth-honiadau

Mae'n beth cyffredin i gyflawnwyr cam-drin domestig wneud gwrth-honiadau o drais neu gam-drin yn erbyn y dioddefwr. Mae honiadau o'r fath yn gallu ei gwneud yn anodd i'r ymarferwyr ddyrannu gwasanaethau priodol, deall risgiau a chwrdd ag anghenion holl aelodau'r teulu.

Mae'n bwysig bod pob honiad o gam-drin domestig yn cael ei gymryd o ddifrif a bod ymateb effeithiol yn cael ei gynnig. Bydd achosion lle mae trais neu ymddygiad camdriniol yn cael neu wedi cael ei ddefnyddio gan y ddau bartner a bydd ymarferwyr am ymchwilio i hyn. Nid yw hyn yn golygu y dylai'r naill barti neu'r llall beidio â derbyn gwasanaethau perthnasol.

Mewn achosion o'r fath, bydd yn fuddiol cynnig gwasanaethau i'r ddau barti. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gwasanaethau arbenigol yn gweithio gyda'r ddau barti ar wahân yn gyntaf er mwyn deall eu hanghenion. Os cafwyd gwrth-honiadau, gall hyn alw am asesu'r ymddygiad gormesol sydd wrth wraidd hyn er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r berthynas. Gwaith arbenigol yw hwn sydd i'w gyflawni gan sefydliad arbenigol yn unig.

Mae'n bwysig nodi bod gwneud honiadau anwir yn fath o gam-drin a, lle ceir bod hyn yn digwydd, gall fod yn dystiolaeth bod trais yn cael ei gyflawni.

Opsiynau ar gyfer atgyfeirio

Mae gwaith ar ymgysylltu â chyflawnwyr cam-drin domestig yn faes sy'n cael ei ddatblygu o hyd. Mae'r modelau gweithio mwy hirsefydlog yn cael eu trafod yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn ond, yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth sydd ar gael ledled Cymru'n gyfyngedig ac mae nifer o'r prosiectau ar gam cynnar o ran eu hargaeledd a'r dystiolaeth ar eu cyfer.

Rhaglenni i gamdrinwyr yn y gymuned

Mae darpariaeth fach ond datblygedig o ymyriadau ar gael ar gyfer camdrinwyr yn y gymuned (y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol) sy'n cynnig Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig i'r rheini sy'n gofyn am gymorth i ddelio â'u hymddygiad eu hunain.

Mae'r rhaglenni hyn yn cynnig llwybr atgyfeirio posibl i'r awdurdodau perthnasol er mwyn estyn cymorth a delio ag ymddygiad cleientiaid sy'n cam-drin ac yn defnyddio trais.

Mae Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig yn rhaglenni gwaith grŵp yn y gymuned sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chyflawnwyr cam-drin domestig gyda'r bwriad o newid eu hymddygiad ac atal cam-drin a thrais pellach. Gallant amrywio o ran eu hyd, maint, nifer y cleientiaid, y model gweithio a'r sefydliad lle maent yn cael eu cynnal.

Yn aml, bydd Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig hefyd yn cynnig gwasanaethau cymorth a diogelwch i bartneriaid ac, mewn rhai achosion, i blant. Mae nifer ohonynt yn cyflawni rôl cyngori mewn llysoedd teulu, gwasanaethau plant, a chynadleddau CAF/CASS am amddiffyn plant. Bydd yn bwysig, mewn llawer o achosion, fod Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig yn cysylltu â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl, er mwyn delio â'r triad o anawsterau a all alw am sylw.

Nid yw Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig yn ceisio cadw teuluoedd gyda'i gilydd, na'u rhannu. Maent yn ceisio gweithio'n effeithiol gyda chamdrinwyr er mwyn cadw eu partneriaid a'u plant yn ddiogel. Y canlyniad gorau i gymryd rhan gan gamdriniwr mewn Rhaglen Cyflawnwyr Trais Domestig yw y bydd pob trais a cham-drin yn dod i ben ac na fydd risg bellach i'w bartner, cyn-bartner, partneriaid nesaf neu blant.^{xi}

Pennu a rheoli disgwyliadau ar gyfer Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig

Er y dylai'r holl awdurdodau perthnasol roi sylw dyledus i'r rhan y gall Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig yn y gymuned ei chwarae yn y ddarpariaeth ehangach o wasanaethau, mae'n bwysig eu bod wrth wneud hynny'n defnyddio'r rhaglenni mewn ffordd briodol ac yn deall yr effaith a'r canlyniadau posibl sy'n gysylltiedig â nhw.

Os bydd camdriniwr yn cymryd rhan mewn Rhaglen Cyflawnwyr Trais Domestig, gall hynny gynnig gobaith i'w bartner y bydd yn newid ei ymddygiad. Gall sefydliadau rannu'r gobaith hwn. Er y gall Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig fod yn

effeithiol, ni fyddant yn llwyddo gyda phob cyflawnwr cam-drin domestig ac mae'n bosibl na fyddant yn newid pob agwedd ar ymddygiad camdriniol. Er enghraifft, gallai trais rhywiol ddod i ben ond byddai mathau eraill o ymddygiad gormesol yn gallu parhau. Mae'n bwysig helpu dioddefwyr i fod yn rhesymol o ran eu disgwyliadau a bod ymarferwyr yn cadw ymagwedd amheugar iach at effeithiau'r rhaglenni hyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ganolbwyntio ar y risgiau i'r teulu sy'n gysylltiedig.

Mae rhai sefydliadau sy'n cael eu harwain gan oroeswyr wedi codi pryderon bod cymryd rhan mewn rhaglenni i gamdrinwyr yn gallu rhoi cyfleoedd ychwanegol i gamdrinwyr ddylanwadu a gormesu ar eu partneriaid. Gallant ddylanwadu, er enghraifft, drwy ddweud celwydd am eu presenoldeb ar y rhaglen, defnyddio deunydd y rhaglen i feirniadu a rheoli ymddygiad y dioddefwr, defnyddio jargon a chysyniadau a ddysgwyd ar y rhaglen i ddylanwadu ar y dioddefwr a defnyddio eu presenoldeb ar y rhaglen fel ffordd o ddylanwadu ar benderfyniadau gan ymarferwyr eraill fel Gweithwyr Cymdeithasol, swyddogion CAFCASS, Llysoedd).^{xli}

Opsiynau Cyfiawnder Troseddol

Ni fydd yn bosibl i awdurdod perthnasol argymhell neu gyfeirio at unrhyw opsiwn penodol ar gyfer dedfrydu, os bydd cyflawnwr cam-drin domestig yn cael ei erlyn am droseddau perthnasol.

Er hynny, mae nifer o fentrau cyfiawnder troseddol wedi'u cyflwyno sy'n cynnig cyfle i'r awdurdodau perthnasol gymryd rhan, felly bydd yn fuddiol i ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r rhain.

Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig

Cyflwynwyd Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig yng Nghymru a Lloegr ym Mawrth 2014.

Mae'r gorchmynion hyn yn galluogi'r heddlu ac ynadon i gymryd camau ar unwaith ar ôl digwyddiad cam-drin domestig. Maent yn gymwysadwy hyd yn oed os nad oes digon o dystiolaeth i gyhuddo ar y pryd a lle na ellir gosod amodau mechnïaeth. Dylai Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig fod yn opsiwn mwy effeithlon o lawer na gwaharddeb cyfraith sifil.

Mae Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig yn atal cyflawnwr ar unwaith rhag dychwelyd i breswylfa a rhag cysylltu â'r dioddefwr am hyd at 28 o ddiwrnodau, gan roi amser i'r dioddefwr ystyried yr opsiynau sydd ar gael a derbyn y cymorth sydd ei angen arno.

Y broses

Ar ôl digwyddiad cam-drin domestig gall yr heddlu gyflwyno Hysbysiad Amddiffyn Trais Domestig i'r troseddwr honedig. Bydd yn gosod amodau penodol arno i'w atal rhag mynd i gartref y dioddefwr, er enghraifft, neu fod o fewn pellter penodol iddo.

O fewn 48 awr bydd yr heddlu'n gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn Trais Domestig drwy Lys Ynadon. Yn y llys, clywir y dystiolaeth a bydd y camdriniwr honedig yn cael cyfle i ddarparu ei dystiolaeth ei hun. Bydd y Llys yn penderfynu ar sail y dystiolaeth hon a fydd yn gwneud Gorchymyn Amddiffyn Trais Domestig. Os gwneir gorchymyn, bydd yn parhau am 14 diwrnod ar y lleiaf a 28 diwrnod ar y mwyaf.

Gall yr Ynadon wneud Gorchymyn Amddiffyn Trais Domestig hyd yn oed os nad yw'r un sy'n cael ei gam-drin yn cytuno i hynny. Hefyd, byddant yn ystyried lles unrhyw un o dan 18 oed y mae'r heddlu'n credu y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.

Y Cynllun Datgelu Trais Domestig ('Cyfraith Clare')

Roedd y Cynllun Datgelu Trais Domestig (DVDS) (sydd hefyd yn cael ei alw'n 'Cyfraith Clare') hefyd wedi dechrau yng Nghymru a Lloegr ym Mawrth 2014.

Mae'r DVDS yn darparu mecanwaith ffurfiol i aelodau'r cyhoedd i wneud ymholiadau am unigolyn y maent mewn perthynas ag ef, neu sydd mewn perthynas â rhywun y maent yn ei adnabod, lle mae pryder y gallai'r unigolyn ddefnyddio trais yn erbyn ei bartner.

Yr hawl i ofyn

Gall aelodau o'r cyhoedd wneud cais am ddatgeliad, sy'n cael ei alw'n 'hawl i ofyn'. Gall unrhyw un wneud ymholiad, ond dim ond i rywun sy'n wynebu risg neu i ymarferydd sydd mewn lle i ddiogelu'r dioddefwr y rhoddir gwybodaeth (gallai hyn gynnwys rhai staff mewn awdurdodau perthnasol). Mae'r cynllun ar gyfer unrhyw un sydd mewn perthynas bersonol, beth bynnag yw ei rywedd. Bydd asiantaethau sy'n bartneriaid hefyd yn gallu gofyn am ddatgelu hanes blaenorol troseddwr os credir bod rhywun mewn perygl o gael ei niweidio.

Yr hawl i wybod

Os ceir gwybod bod unigolyn a all fod yn dreisgar wedi cael euogfarnau am droseddau treisgar, neu fod gwybodaeth wedi dod i law am ei ymddygiad sy'n rhoi sail resymol i'r heddlu ac asiantaethau eraill gredu ei fod yn creu perygl o niweidio ei bartner, bydd yr heddlu'n ystyried datgelu'r wybodaeth hon. Gellir datgelu gwybodaeth os yw'n gyfreithlon, yn gymesur ac yn angenrheidiol gwneud hynny.

Rhaglenni statudol ar gyfer camdrinwyr

Mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn darparu rhaglenni penodol sy'n canolbwyntio ar gam-drin domestig ar gyfer camdrinwyr sydd wedi'u cael yn euog o droseddau perthnasol.

Y brif raglen sy'n cael ei darparu gan yr holl wasanaethau prawf yng Nghymru yw Building Better Relationships (BBR). Nod y rhaglen hon yw lleihau aildroseddu a hybu diogelwch partneriaid a phlant yn awr ac yn y dyfodol gan gydweithio ag asiantaethau eraill i reoli risg.

Mae'r cwrs yn cynnwys dwy sesiwn ragarweiniol, pedwar modiwl gwaith grŵp o chwe sesiwn yr un a phedair sesiwn unigol ar ddiwedd y cwrs. Mae'r cwrs wedi'i fwriadu ar gyfer dynion a gafodd euogfarn gyfredol sy'n ymwneud â thrais yn erbyn partner personol yr aseswyd eu bod yn achosi risg gymedrol neu fwy o ymddwyn yn dreisgar eto ar sail yr Asesiad Risg Ymosod ar Briod (SARA). Mae cyfle hefyd i atgyfeirio dynion sydd heb euogfarn gyfredol gysylltiedig â thrais yn erbyn partner personol ond rhaid darparu tystiolaeth o un enghraifft o drais yn erbyn partner personol na chafwyd euogfarn amdani yn y 24 mis cyn yr euogfarn bresennol ac asesiad sy'n dangos risg uchel o ymddygiad treisgar pellach ar sail SARA.

Yr ethos sy'n sail i'r rhaglen yw'r gred bod cam-drin domestig yn ganlyniad i ryngweithio cymhleth rhwng nifer o ffactorau sy'n diogelu neu'n peri risg. Mae'n defnyddio system goleuadau traffig sy'n cael ei galw'n stop, paratoi a mynd. Yn ystod cyfnod y 'stop', bydd y cyfranogwyr yn myfyrio ar yr ymddygiad ymosodol yn eu perthynas ac yn meithrin mewnwelediad a dealltwriaeth o'u patrymau ymddygiad. Yn y cyfnod 'paratoi', mae sgiliau'n cael eu dysgu a'u hymarfer a fydd yn arwain at newid. Yn olaf, yn y cyfnod 'mynd', mae'r sgiliau'n cael eu defnyddio yn y byd go iawn.

Ar gyfer y troseddwy'r hynny nad yw BBR yn addas ar eu cyfer, mae cwrs un i un o 10 sesiwn o'r enw Respectful Relationships hefyd yn cael ei ddarparu gan staff prawf yng Nghymru. Rhaglen wedi'i hachredu yw BBR (h.y. rhoddwyd cryn sylw i'w sail ddamcaniaethol ac mae wedi cael ei gwerthuso), tra cafodd Respectful Relationships ei ddatblygu'n lleol ac mae'n gasgliad o adnoddau sydd ar gael i'w defnyddio gan staff prawf.

Gwasanaethau a all fod yn amhriodol fel opsiynau atgyfeirio wrth weithio gyda chamdrinwyr

Mae nifer o gynlluniau'n cael eu cynnig drwy gamgymeriad weithiau i gyflawnwyr cam-drin domestig o ganlyniad i ddiffyg dealltwriaeth o ddynwreg ac achosion ymddygiad camdriniol.

Fel arfer, nid yw gwaith gyda chyplau, cyfryngu nac arferion rheoli dicter yn ymatebion priodol i ddelio ag ymddygiad camdrinwyr.

Gweithio gyda chyplau/cyfryngu

Gan fod cam-drin domestig yn gysylltiedig yn aml â charmarfer grym a gormesu gan un partner ar bartner arall, ni fydd yn bosibl mewn llawer achos i'r ddau barti mewn perthynas gamdriniol eu mynegi eu hunain yn briodol mewn sesiynau ar y cyd. Mae gwaith gyda chyplau'n gallu creu mwy o risg i'r dioddefwr os gofynnir iddo drafod y cam-drin tra bo'r camdriniwr yn bresennol.

Er mwyn darparu cwnsela llwyddiannus, bydd angen i'r partïon sy'n cymryd rhan allu siarad yn agored a gonest am eu sefyllfa. Mewn achosion cam-drin domestig, bydd nifer mawr o ddioddefwyr yn teimlo nad yw'n ddiogel datgelu'r cam-drin am eu bod yn ofni'r canlyniadau.

Rheoli dicter

Nid yw'r gormesu sy'n nodweddiadol o brofiadau llawer o bobl sydd wedi goroesi cam-drin domestig yn ymwneud â dicter ond yn hytrach â'r defnydd o rym a rheolaeth. Nid yw rhaglenni rheoli dicter yn addas i ddelio â'r achosion hyn gan nad ydynt yn mynd at wraidd yr hyn sy'n achosi trais a cham-drin, yn rhoi sylw i ddiogelwch y dioddefwr nac yn dal y camdriniwr yn atebol.

Diffiniadau

Achredu: I ddibenion y canllawiau hyn, mae'r term "achredu" yn golygu awdurdodi neu gymeradwyo cwrs hyfforddi sy'n cael ei ddarparu gan gorff swyddogol ar ôl bodloni safonau cydnabyddedig.

Aflonyddu: Ffordd o ymddwyn gan berson sy'n gwybod neu a ddylai wybod ei bod yn golygu aflonyddu ar y person arall; ac i ddibenion y diffiniad hwn:
(a) dylai person wybod bod ei ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu neu'n ei gynnwys os byddai person rhesymol sydd â'r un wybodaeth yn meddwl bod y ffordd o ymddwyn yn gyfystyr ag aflonyddu neu'n cynnwys aflonyddu ar berson arall,
(b) mae "ymddygiad" yn cynnwys lleferydd.

Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM): Gweithred sy'n drosedd o dan adrannau 1, 2 neu 3 o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 (c. 31).

Awdurdodau perthnasol: Cyngorau sir a bwrdeistref sirol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac ymddiriedolaethau GIG.

Awdurdod Lleol: Cyngor sir neu fwrdeistref sirol.

Cam-drin: Cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.

Cam-drin domestig: Cam-drin lle mae'r un sy'n ei ddioddef yn gysylltiedig neu wedi bod yn gysylltiedig â'r camdriniwr.

Mae person yn gysylltiedig â pherson arall i ddibenion y diffiniad o "gam-drin domestig" os yw'n dod o fewn y diffiniad yn adran 21(2) neu (3) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

Camfanteisio rhywiol: Rhywbeth sy'n cael ei wneud i berson neu mewn cysylltiad ag ef sydd (a) yn golygu cyflawni trosedd o dan Ran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (c. 42), fel y mae'n cael ei gweithredu yng Nghymru a Lloegr, neu (b) a fyddai'n golygu cyflawni trosedd o'r fath pe byddai'n cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr.

Camfanteisio'n rhywiol ar blant: Gorfodi neu ddylanwadu ar blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae hwn yn ffurf o gamfanteisio rhywiol sy'n golygu bod rhyw fath o dâl yn cael ei ddefnyddio, ee arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'amddiffyn' rhywun neu ddangos hoffter tuag ato. Gan fod y bobl ifanc yn agored i niwed a'r camdriniwr yn defnyddio proses arbennig i feithrin perthynas â nhw, nid yw'r bobl ifanc yn gallu gweld bod y berthynas yn un sy'n camfanteisio ac nid oes modd iddynt roi cydsyniad ar sail gwybodaeth.

Cleient: Mae "cleient" yn derm sy'n cael ei ddefnyddio yma i ddisgrifio person sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r term yn cwmparu'r termau "dioddefwr", "goroeswr", "defnyddiwr gwasanaethau" a "claf". Mae gwahanol bartneriaid yn arfer geiriau gwahanol i ddiffinio eu perthynas â'r person sydd mewn perygl ac felly mae'r canllawiau yn adlewyrchu hyn.

Wrth ymarfer, rydym yn awgrymu bod y person sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dewis y term sydd orau ganddo, pan fo angen defnyddio term. Fel arfer, dylai fod yn bosibl defnyddio enw'r cleient yn hytrach na thermau eraill i'w ddisgrifio.

Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig: Gweithiwr arbenigol hyfforddedig sy'n darparu cymorth tymor byr a chanolig mewn gwaith achosion ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sy'n wynebu risg uchel.

Cynghorwr Annibynnol ar Drais Rhywiol: Gweithiwr arbenigol hyfforddedig sy'n darparu cymorth tymor byr a chanolig mewn gwaith achosion ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol.

“Gofyn a Gweithredu”: Proses o holi wedi'i dargedu ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a phroses o holi cyffredinol mewn gwasanaethau mamolaeth a bydwreigiaeth, a lleoliadau iechyd meddwl a cham-drin plant.

Gwasanaeth cyhoeddus: Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wasanaethau sy'n cael eu darparu er budd y cyhoedd. Gall hyn gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu drwy'r trydydd sector, drwy fenter gymdeithasol neu drwy wasanaethau sydd wedi'u gosod ar gontract allanol.

Yng nghyd-destun y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (sydd â “Gofyn a Gweithredu” yn elfen ynddo), mae'r gwasanaeth cyhoeddus wedi'i ddiffinio ar sail asesiad o'r hyn yw 'gweithwyr y sector cyhoeddus datganoledig' yng Nghymru – mae hwn yn cynnwys y gwasanaeth sifil datganoledig, awdurdodau lleol, iechyd, awdurdodau addysg a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Er nad yw Awdurdodau Heddlu wedi'u datganoli, maent wedi'u cynnwys am eu bod yn cael eu hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Nid yw 'gweithwyr y sector cyhoeddus datganoledig' yn cynnwys gweision sifil sydd heb eu datganoli (fel y rheini sy'n gweithio i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r DVLA), personél milwrol a phobl sydd wedi'u cyflogi gan Gorfforaethau Cyhoeddus (fel S4C a Bws Caerdydd etc) yng Nghymru.

Rhanbarth: Disgwylir i awdurdodau lleol weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos ac ar draws ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol er mwyn rhannu'r Grant Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (o fis Mawrth 2018). Bydd awdurdodau lleol yn rhydd i alinio fel y maent yn gweld orau i'r diben hwn. I ddibenion y canllawiau hyn, mae'r bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol eraill a Byrddau Iechyd Lleol yn cael ei galw'n rhanbarth. Bydd y cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwyr ar gyfer “Gofyn a Gweithredu” yn cael ei ddarparu o fewn y rhanbarth hwn.

“Trais ar sail Rhywedd”

- (a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;
- (b) anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM);

(c) gorfodi person (boed drwy rym corfforol neu orfodaeth drwy fygythiadau neu ffyrdd seicolegol eraill) i gymryd rhan mewn seremoni briodasol grefyddol neu sifil (pa un a yw'n gyfreithiol rywml neu beidio);

Trais Rhywiol: Camfanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol, neu fygythiadau o drais o natur rhywiol.

Trais yn erbyn menywod: Profi trais ar sail rhywedd gan fenywod.

Y Ddeddf: Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Ymarferydd: Gweithiwr proffesiynol sy'n cael ei gyflogi i weithio'n uniongyrchol gyda grŵp cleientiaid y mae cyfran ohonynt yn debygol o brofi math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol, sy'n cael cyfle drwy ei rôl a'i berthynas â'r cleient i "Ofyn a Gweithredu".

Cyfeiriadau

¹ Harvey S, Mitchell M et al (2014) Barriers faced by Lesbian, Gay, Bisexual and Trans People in Accessing Domestic Abuse, Stalking, Harassment and Sexual Violence Services. NatCen Social Research

² (ac ar gyfer yr holl bwyntiau sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant isod) <https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/child-sexual-exploitation/signs-symptoms-and-effects/>

³ Gynaecological problems are the most consistent, longest lasting and largest health difference between women who have and have not experienced abuse (Feder et al (2009) via Priorities for the Violence Against Women (Wales) Bill. Wales Violence Against Women Action Group (2011)

⁴ <https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/female-genital-mutilation-fgm/signs-symptoms-and-effects/>

⁵ <http://www.safelives.org.uk/sites/default/files/resources/Forced%20marriage%20-%20practice%20briefing%20FINAL.pdf>

⁶ Trevillion K, Oram S, Feder G, Howard LM. Experiences of domestic violence and mental disorders: a systematic review and meta-analysis. PLoS One. 2012;7(12):e51740.

⁷ Y cyfnod ôl-enedigol yw'r cyfnod o tua chwe wythnos sy'n dechrau'n union ar ôl geni'r plentyn.

⁸ Lewis a Drife, 2001, 2005; McWilliams a McKiernan, 1993.

⁹ Ramsay J et al. (2009) Advocacy interventions to reduce or eliminate violence and promote the physical and psychosocial well-being of women who experience intimate partner abuse. Cochrane Database Systematic Review

¹⁰ Yr Adran Iechyd, 2002; Farmer ac Owen, 1995.

¹¹ Taft A, et al (2013) Screening women for intimate partner violence in healthcare settings. Cochrane Database Systematic Rev. (Ramsey et al Systematic Review:2002)

¹² (Price 2004; Leeds Inter-agency Project, 2005).

¹³ Adborth uniongyrchol gan un sydd wedi goroesi cam-drin am fersiwn ddrafft o'r canllawiau hyn

¹⁴ Prochaska, J. a DiClemente, C.(1983) Stages and processes of self-change in smoking: toward an integrative model of change. Journal of Consulting and Clinical Psychology

¹⁵ (Burrowes a Needs, (2009).

¹⁶ (Drieschner, Lammers, a van der Staak, (2004).

¹⁷ Jan Pickles, Dr Amanda Robinson, James Rowlands a Jasvinder Sanghera.

¹⁸ www.caada.org.uk

¹⁹ Mae hyn yn cael ei wirio drwy offeryn ar wahân (a elwir yn grid difrifoldeb cam-drin) a ddefnyddir gan ymarferwyr arbenigol i asesu difrifoldeb y cam-drin.

²⁰ <http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/1032/0099922.pdf>.

²¹ http://www.caada.org.uk/Young_People/YP_RIC.htm

^{xxii} Mae hyn wedi'i godi o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008)

^{xxiii} CAADA Case Management Pack <http://www.caada.org.uk/dvservices/resources-for-domestic-abuse-practitioners.html>

^{xxiv} Fincken C Striking the Balance: Practical Guidance on the application of Caldicott Guardian Principles to Domestic Violence and MARACs

^{xxv} Ibid

^{xxvi} Yn seiliedig ar ganfyddiadau Partneriaeth Ymfudo Cymru (2013), "*Uncharted Territory: Violence against migrant, refugee and asylum seeking women in Wales.*"

^{xxvii} Gilbert, Gilbert, Sanghera (2004) A focus group exploration of the impact of izzat, shame, subordination and entrapment on mental health and service use in South Asian women living in Derby Mental Health, Religion & Culture Volume 7, Number 2, June 2004, 109–130

^{xxviii} Yn seiliedig ar ganfyddiadau Partneriaeth Ymfudo Cymru (2013), "*Uncharted Territory: Violence against migrant, refugee and asylum seeking women in Wales.*"

^{xxix} Donovan a Hester, (2010) via CAADA Practice Guidance on engaging and working with lesbian, gay, bisexual and transgender (LGBT) clients

^{xxx} (Donovan a Hester, 2011) via CAADA Practice Guidance on engaging and working with lesbian, gay, bisexual and transgender (LGBT) clients

^{xxxi} Harvey S, et al (2014) Barriers Faced by Lesbian, Gay, Bisexual and Transgender People in Accessing Domestic Abuse, Stalking and Harassment, and Sexual Violence Services. National Centre for Social Research

^{xxxii} Roch, Ritchie ac LGBT Youth Scotland (2010) Out of Sight Out of Mind. Transgender People's Experiences of Domestic Abuse

^{xxxiii} Roch, Ritchie ac LGBT+ Youth Scotland (2010) Out of Sight Out of Mind. Transgender People's Experiences of Domestic Abuse

^{xxxiv} Yn yr un modd â'r holl gategorïau sydd wedi'u rhestru yma, nid yw pobl hŷn yn grŵp unffurf. Gallent berthyn i genedlaethau gwahanol a gellir cael amrywiant mawr yn amrediad oed y rheini sydd wedi'u diffinio'n bobl hŷn. Gall y cam mewn bywyd a hanes bywyd fod yn fwy arwyddocaol nag oed ac, yn yr un modd â phob grŵp lleiafrifol, mae'n bwysig peidio byth â ffurfio rhagdybiaethau.

^{xxxv} Older women and domestic violence: An overview (Women's Aid)
[www.womensaid.org.uk/downloads/olderwomenanddvreport\(1\).pdf](http://www.womensaid.org.uk/downloads/olderwomenanddvreport(1).pdf)

^{xxxvi} Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2011-2012) Focus on: Violent Crime and sex offences

^{xxxvii} Arolwg Troseddau Prydain 1995

^{xxxviii} Walter-Brice, A. et al (2012) What do women with learning disabilities say about their experiences of domestic abuse within the context of their intimate partner relationships? Disability and Society wedi'i grybwyll gan McCarthy M (2014) NIHR SSCR Workshop Insights from Research on Adult Safeguarding

^{xxxix} CAADA (2014) In plain sight: Effective help for children exposed to domestic abuse.

^{xl} Kelly L, Westmarland N (2015) Domestic Violence Perpetrator Programmes: Steps Towards Change. Project Mirabal Final Report. London and Durham: London Metropolitan University and Durham University <http://respect.uk.net/highlights-mirabal-research-findings-respect-accredited-domestic-violence-perpetrator-programmes-work/>

^{xli} Women's Aid briefing - perpetrator work in the UK, July 2007
<http://www.womensaid.org.uk/domestic-violence-articles.asp?section=00010001002200180001&itemid=1080>